CYNGOR GOFAL CYMRU
CARE COUNCIL FOR WALES

# CYNGOR GOFAL CYMRU

# CARE COUNCIL FOR WALES

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

# ANNUAL REPORT

**1 HYDREF 2001 – 31 MAWRTH 2002**

**1 OCTOBER 2001 – 31 MARCH 2002**

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

# 2002

## PRIF GYNNWYS


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| **1.** | **Rhagair** | **2** |
| **2.** | **Cyflwyniad** | **5** |
| **3.** | **Cyd-destun** | **6** |
| **3.1** | Y Sector Gofal Cymdeithasol | **6** |
| **3.2** | Blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru | **7** |
| **4.** | **Targedau a Chyflawniadau** | **8** |
| **4.1** | Rheoleiddio (Safonau ac Ymddygiad) | **8** |
| **4.2** | Datblygu'r Gweithlu | **13** |
| **4.3** | Alldaliadau a Bwrsariaethau | **24** |
| **4.4** | Cynllunio a Chreu Cyngor Newydd | **25** |
| **4.5** | Cynllunio a Chreu Sefydliad Newydd | **26** |

**Atodiadau**

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | Aelodau'r Cyngor | **27** |
| **2.** | Aelodau Pwyllgorau'r Cyngor | **28** |
| **3.** | Strwythur y Pwyllgorau | **29** |
| **4.** | Siart o'r Sefydliad | **30** |
| **5.** | Digwyddiadau a Drefnwyd gan y Cyngor Gofal | **31** |
| **6.** | Digwyddiadau y bu'r Cyngor Gofal yn bresennol ynddynt | **33** |
| **7.** | Aelodau'r Grwpiau | **34** |
| **8.** | Cyfrifon Blynyddol 2001/02 a Archwiliwyd gan yr Archwiliwr Cyffredinol dros Gymru | **37** |

# 1. Rhagair

Y mae Adroddiad Blynyddol cyntaf Cyngor Gofal Cymru, mewn gwirionedd, yn adroddiad ar y cyfnod o chwe mis ers sefydlu'r Cyngor Gofal ym mis Hydref 2001 hyd at ddiwedd mis Mawrth 2002. Y mae'r adroddiad yn adlewyrchu'r egni a'r ymrwymiad a ddangosodd aelodau a staff y Cyngor, fel ei gilydd, wrth fynd i'r afael ag agenda a her ynddi, a gweithredu ar yr agenda honno, yn ystod chwe mis cyntaf o fodolaeth y Cyngor Gofal.

Cylch gorchwyl y Cyngor Gofal, yn ôl Deddf Safonau Gofal 2000 yw *"hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad ac ymarfer ymysg gweithwyr gofal cymdeithasol a safonau uchel yn eu hyfforddiant"*[1]. Saif y Cyngor Gofal ochr yn ochr â chynlluniau eraill a sefydlwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i atgyfnerthu'r mesurau diogelu i bobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol ac i ennyn hyder y cyhoedd. Yr ydym ni'n canolbwyntio'n benodol ar y safonau ar gyfer y 70,000 o weithwyr gofal cymdeithasol.

Wrth sefydlu Cyngor Gofal Cymru, y farn gyffredinol oedd fod yn rhaid buddsoddi mewn datblygiadau, yn ogystal â chamau rheoleiddio, os am hyrwyddo a chodi safonau. Ein rôl ni felly yw bwrw ymlaen â'r gwaith o reoleiddio a chofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol am y tro cyntaf erioed a hefyd, parhau â gwaith y sefydliad a'n rhagflaenodd - Cyngor Canolog Addysg a Hyfforddiant mewn Gwaith Cymdeithasol (CCETSW) – i ddatblygu'r gweithlu a rheoleiddio hyfforddiant cymhwyso ac ôl gymhwyso. Pwysleisiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Cyngor Gofal pa mor bwysig oedd parhad, gan adeiladu ar yr hyn a sefydlwyd eisoes.

Yr her i ni oedd taro'r ddaear tra'n rhedeg i gyflwyno'r agenda rheoleiddio newydd a pharhau, ar yr un pryd, i gadw'r curiad wrth gyflwyno'r agenda datblygu sefydledig! Credwn ein bod wedi llwyddo i wneud hynny. Cyrhaeddwyd pob targed a rhoddwyd conglfeini pwysig yn eu lle.

Yn ystod misoedd cyntaf 2002, cynhaliom ymarferiad ymgynghori sylweddol ar y Côd Ymddygiad a'r Côd Ymarfer i Gyflogwyr a Gweithwyr Gofal Cymdeithasol. Ein dull o weithredu oedd cynnal sesiynau ymgynghori rhanbarthol ar gyfer y sector, gweithdai penodol ar gyfer defnyddwyr y gwasanaethau yn ogystal ag ymateb i wahoddiadau gan sefydliadau a gysylltodd i'n gwahodd i'w cyfarfod. Yr oedd hyn yn ychwanegol at yr ymgynghori trwy'r post a gwefan y Codau. Bu aelodau'r Cyngor, yn ogystal â'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, mewn llawer o'r sesiynau a chawsant glywed, o lygad y ffynnon, beth oedd barn y sector gofal cymdeithasol. Y mae'r dull hwn o weithredu yn adlewyrchu ymrwymiad cyffredinol y Cyngor Gofal i weithio mewn partneriaeth, i wrando ac i wneud yn siwr fod sail gadarn i'r gwaith a wnawn.

Ar yr un pryd, dechreuom ddrafftio'r Rheolau Cofrestru a'r Rheolau Ymddygiad a fydd yn rheoli'r broses o dderbyn gweithwyr gofal cymdeithasol ar y gofrestr ac yn rheoli'r amgylchiadau ar gyfer tynnu enw person oddi ar y gofrestr. Y mae sefydlu cofrestr ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol yn dasg enfawr. Un elfen yn unig yw'r Rheolau; elfen arall yw caffael y TG i gyflawni'r gwaith cofrestru. Y mae sicrhau mesurau i ddiogelu'r cyhoedd wrth wraidd pob agwedd o'n gwaith a dyna pam yr ydym yn gweithio'n glòs â'r Cynghorau Gofal yn y tair gwlad arall ar y gwaith Cofrestru, yn union fel ag y gwnaethom gyda'r Codau.

[1] Adran 54(3) Deddf Safonau Gofal 2000

Cwblhawyd y Datganiad o Ofyniad ar gyfer y Gofrestr erbyn mis Mawrth, yn ôl y cytundeb. Yn ôl pob disgwyl, penodir cyflenwr ym mis Mai 2002. Tua'r un pryd, bydd y Cyngor yn cytuno i'r Rheolau drafft fel y gellir ymgynghori yn eu cylch.

Yn ystod y cyfnod hwn, yr oeddem yn parhau i weithio gyda chyflogwyr ar draws y sector gofal cymdeithasol ar gynlluniau sy'n cefnogi datblygiad gweithwyr gofal cymdeithasol. Ym mis Ionawr 2002, cymeradwyodd y Cyngor Fframwaith ar gyfer Sefydlu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol. Y mae hwn yn unigryw i Gymru. Fe'i datblygwyd mewn ymateb i gyflogwyr a oedd yn awyddus i gael canllawiau cyffredin. Dengys gwaith ymchwil fod proses sefydlu briodol yn ffactor pwysig o ran cadw a symbylu staff. Yr oedd Cyflogwyr yn ymwybodol hefyd y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys proses sefydlu yn y Safonau Sylfaenol Cenedlaethol ar gyfer y gwasanaethau gofal cymdeithasol. Datblygwyd y Fframwaith hwn trwy ymgynghori â chyflogwyr. Y mae'n adeiladu ar yr ymarfer da sydd eisoes ar waith ond yr hyn sy'n arbennig o arloesol am y Fframwaith hwn yw ei fod yn mapio allan sut y gall y broses sefydlu gyfrannu tuag at y dystiolaeth sy'n ofynnol ar gyfer cymwysterau CGC. Y mae cyflogwyr eisoes yn gwneud sylwadau am ei fuddioldeb.

Am y tro cyntaf erioed, y mae gennym yn awr Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol. Gwnaethom yn siwr ein bod yn cynnwys ymarferwyr gwaith cymdeithasol, cyflogwyr a defnyddwyr gwasanaethau yn y broses ddrafftio. Y safonau hyn, a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2002 fydd y sylfaen ar gyfer y cymhwyster gwaith cymdeithasol newydd. Y mae'r gwaith o ddatblygu'r cymhwyster newydd ar y gweill ers tro. Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n arwain y diwygiad ond y mae staff y Cyngor Gofal wedi cyfrannu'n frwd at y broses o weithredu ar waith y chwe grwp sy'n cymryd yr awenau gyda'r gwahanol agweddau megis noddi ac ymarfer.

Y mae'r Cyngor Gofal yn sylweddoli'r effaith a gaiff agwedd negyddol ar ran y cyhoedd ar ysbryd a hunan barch y rhai sy'n gweithio yn y maes gofal cymdeithasol a'r effaith yn sgîl hynny ar y broses o recriwtio a chadw gweithwyr gofal cymdeithasol yn gyffredinol. Yr ydym yn croesawu ein cysylltiad â'r Tîm Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd gan Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, er mwyn cael mynd i'r afael â'r sialensiau o ran recriwtio a chadw staff. Nid oes atebion parod ond y mae cyfleoedd i wneud pethau'n wahanol sy'n cynnwys y sector cyfan ar lefel ranbarthol a lefel genedlaethol.

Yr ydym wedi hwyluso'r broses o greu pedair Partneriaeth Gofal Cymdeithasol Ranbarthol. Y mae 280 o asiantaethau: cyflogwyr – llywodraeth leol, y sector gwirfoddol a'r sector preifat, darparwyr addysg a hyfforddiant, cwmnïau gyrfaoedd ac ELWa, erbyn hyn, yn gysylltiedig â hwy. Y maent yn gweithio gyda'i gilydd i fapio eu sialensiau a'u blaenoriaethau rhanbarthol penodol gyda chynlluniau ynghylch sut i ymdrin â'r rhain. Megis dechrau y mae pethau mewn gwirionedd, ond un o lwyddiannau cychwynnol y Partneriaethau fu'r Ffeiri Swyddi a gynhaliwyd ganddynt lle'r oedd y cyflogwyr yn gweithio gyda'i gilydd fel un sector gofal cymdeithasol. Yr oedd llawer o bobl a oedd yn dymuno gweithio yn y sector wedi dangos diddordeb. Arbrawf oedd y Ffeiri Swyddi a byddwn yn gwerthuso eu llwyddiant yn y tymor hir.

O fwrw golwg yn ôl dros chwe mis cyntaf y Cyngor Gofal, y mae'r hyn a gyflawnwyd wedi bod yn sylweddol iawn. Un o'r themâu cyffredin sy'n rhedeg trwy'r holl waith hyd yma yw'r ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth.

Y mae'r Cyngor ei hun yn bartneriaeth o ddefnyddwyr y gwasanaethau, y cynhalwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol yn ffurfio mwyafrif yr aelodau. Ochr yn ochr â'r bobl hynny y mae cyflogwyr o'r sector preifat, y sector gwirfoddol, a llywodraeth leol, cymdeithasau proffesiynol, undebau llafur a darparwyr addysg a hyfforddiant. Eisoes, y mae'r Cyngor yn grwp cydlynu. Yr ydym wedi bod yn cyfarfod yn fisol er mwyn mynd i'r afael â materion cymhleth. Y mae'r holl aelodau yn gysylltiedig â grwpiau cyfeirio ac is bwyllgorau, ac y mae rhai ohonynt wedi bod yn rhan o'r grwpiau pedair gwlad ynglyn â'r gwaith o ddrafftio'r Codau.

I staff y Cyngor Gofal, bu'n gyfnod o newid aruthrol, ac y maent wedi mynd i'r afael â'r her gyda phroffesiynoldeb di-ffael. Y mae pob aelod staff wedi chwarae ei ran i sicrhau ein bod wedi sefydlu sefydliad hygyrch a chredadwy a'n bod yn cyflwyno'r agenda a roddwyd i ni.

Carem hefyd dalu teyrnged i Graham Williams, Prif Arolygydd y Gwasanaethau Cymdeithasol, a'i dîm, am y gefnogaeth a gawsom yn ystod y broses o sefydlu'r Cyngor Gofal. Buont yn onest ac yn hygyrch a bu hynny'n help mawr i ni gyda'r dasg o sefydlu sefydliad newydd sbon a gweithredu ar agenda newydd.

Yn olaf, y mae'r hyn a gyflawnwyd yn ystod y chwe mis cyntaf wedi bod yn ddechrau calonogol iawn, ac yn sylfaen ardderchog i adeiladu arno. Yr ydym yn deall yn llwyr y bydd yr agenda yn parhau i fod yn her am rai blynyddoedd i ddod wrth i ni sefydlu trefniadau rheoleiddio newydda'u rhoi ar waith. Bydd pwysau arnom i gyflawni pethau'n gyflym fel y bydd disgwyliadau'n codi. Bydd yn rhaid i ni gadw'r ddysgl yn wastad rhwng y synnwyr o frys a gwneud yn siwr y bydd yr hyn a weithredwn yn ddiogel ac yn deg. Bydd yn hanfodol sicrhau fod y Cyngor Gofal yn derbyn digon o adnoddau i ymgymryd â'r gwaith cymhleth y mae gofyn iddo'i gwblhau.

Edrychwn ymlaen at barhau i weithio gyda'n partneriaid o fewn y sector gofal cymdeithasol a'r cymunedau ehangach yng Nghymru dros y flwyddyn i ddod er mwyn cymryd y camau angenrheidiol i gyflawni'r gweithlu cynaliadwy o safon uchel y bydd yn rhaid i bob un ohonom ei sicrhau i'r bobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru.

**Mutale Nyoni**
**Cadeirydd**

**Rhian Huws Williams**
**Prif Weithredwr**

## 2. Cyflwyniad

Y mae Adroddiad Blynyddol Cyntaf Cyngor Gofal Cymru yn adroddiad ar y cyfnod o chwe mis ers sefydlu'r Cyngor Gofal ym mis Hydref 2001 hyd at ddiwedd mis Mawrth 2002. Yr oedd ffocws y cyfnod cychwynnol o chwe mis dan reolaeth tri o ofynion eang. Y cyntaf oedd sefydlu'r Cyngor Gofal a'i fusnes, yr ail oedd sicrhau parhad a tharfu cyn lleied ag y bo modd ar y cyfrifoldebau parhaus a drosglwyddwyd o Gyngor Canolog Addysg a Hyfforddiant mewn Gwaith Cymdeithasol (CCETSW) a'r olaf oedd mapio allan a dechrau cyflwyno'r busnes newydd sbon o reoleiddio'r gweithlu.

Yr oedd y Cynllun Gwaith ar gyfer y cyfnod, felly, yn cwmpasu 5 prif elfen:

- Creu Cyngor Gofal **newydd**;
- Creu sefydliad **newydd** yn unol â'r gofynion a bennwyd ar gyfer Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (CCNC);
- Mapio allan a chyflawni cyfrifoldebau **newydd** a bennir mewn deddfwriaeth;
- Cyflawni ymrwymiad **parhaus** a drosglwyddwyd gan Gyngor Canolog Addysg a Hyfforddiant mewn Gwaith Cymdeithasol (CCETSW);
- **Cau** busnes terfynol CCETSW.

Cymeradwyodd y Cyngor a Llywodraeth Cynlluniad Cymru y gynllun a amlinellai dargedau eang a cherrig milltir ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref 2001 hyd at fis Mawrth 2002.

Cytunodd y Cyngor i Ddatganiad o Bwrpas a Gwerthoedd fel rhan o ddatblygiad y Cynllun Gweithredol ar gyfer 2002/03:

*Prif nod Cyngor Gofal Cymru yw sicrhau safonau uwch mewn ymddygiad, ymarfer a hyfforddiant ar draws y gweithlu gofal cymdeithasol. Yn unol â hyn, bydd y Cyngor Gofal yn cynnal ei fusnes ar sail yr egwyddorion a'r credoau canlynol:*

- *mai defnyddwyr gwasanaethau a chynhalwyr wrth wraidd yr agenda*
- *bod gwasanaethau o ansawdd dda yn dibynnu ar staff cymwys*
- *bod Rheoleiddio a Chofrestru, a ategir gan fuddsoddiadau eraill yn natblygiad y gweithlu yn gallu codi safonau*
- *bod gofal cymdeithasol yn un sector, gydag un gweithlu*
- *bod gan bobl anghenion, dymuniadau a diddordebau gwahanol, a bod rhaid cydnabod y rhain a'u parchu*
- *bod rhaid cefnogi cyfle cyfartal a gwerthfawrogi gwahaniaeth*

*Wrth wneud ei waith, mae'r Cyngor Gofal yn cydnabod pwysigrwydd ennyn hyder y cyhoedd yn y maes gofal cymdeithasol, a'r swyddogaethau sydd gan y Cyngor Gofal i wella hyn trwy ei waith.*

*Fel sefydliad, bydd y Cyngor Gofal yn ceisio gweithredu fel gwasanaeth agored, cyson ac atebol, gan weithio mewn partneriaeth ag eraill i wireddu ei amcanion, a gan sicrhau ei fod yn gweithredu'n brydlon ac yn effeithlon pan fydd pethau'n mynd o chwith.*

# 3. Cyd-destun

## 3.1 Y Sector Gofal Cymdeithasol

Gofal Cymdeithasol yw un o'r meysydd pwysicaf o wasanaeth yng Nghymru ac y mae'n rhan hanfodol o'r continuwm gofal. E*rbyn hyn, mae yna dros 100,000 o bobl yng Nghymru yn derbyn cefnogaeth gan awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol ar yr un pryd drwy gwasanaethau yn eu cartrefi eu hunain, mewn lleoliadau dydd ac mewn cartrefi preswyl a nyrsio.*[2]

Y mae'r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol:

- *Yn cyfrannu tuag at sicrhau cymdeithas gynhwysol lle caiff pobl fyw bywydau cynhyrchiol ac ystyrlon;*
- *Yn cefnogi unigolion a theuluoedd tuag at fod yn fwy annibynnol;*
- *Yn darparu gwasanaethau sy'n ymatebol i anghenion a dewis yr unigolyn;*
- *Yn cydnabod ac yn cefnogi gofalwyr o bob oedran yn eu rôl o ofalu am bobl ddiymgeledd.*[3]

*Darperir gwasanaethau gofal cymdeithasol gan asiantaethau a chyrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, gydag awdurdodau lleol yn chwarae rôl hollbwysig yn y gwaith o asesu angen a chomisiynu gwasanaethau gan yr amrywiaeth o ddarparwyr i ddiwallu'r angen a ddynodwyd.*[4]

Y mae'r Sector Gofal Cymdeithasol yn cyflogi dros 70,000 o bobl yng Nghymru, 5% o gyfanswm gweithlu Cymru. Cafwyd twf o 16% yn y gweithlu gofal cymdeithasol dros y 5 mlynedd diwethaf ac y mae'r twf yn debygol o barhau yn ôl 2-3% yn flynyddol hyd at 2006.

*"Ceir cyswllt uniongyrchol rhwng ansawdd ac ymatebolrwydd y gwasanaethau a ddarperir ac ansawdd a digonolrwydd y gweithlu. Y mae'r patrwm newidiol a chymhlethdod y ddarpariaeth o wasanaethau wedi arwain at newidiadau sylweddol yn y gweithlu dros flynyddoedd diweddar. Y mae'r gweithlu'n ganolog o ran cyflawni ein hamcanion o sicrhau gwasanaethau gofal cymdeithasol o ansawdd uchel sy'n gallu ymateb yn effeithiol i anghenion pobl."*[5]

Dyma rai o'r egwyddorion allweddol, sy'n goleuo agenda'r gweithlu gofal cymdeithasol ehangach yng Nghymru:

- Y mae'r sector gofal cymdeithasol yng Nghymru yn cwmpasu asiantaethau statudol, preifat a gwirfoddol;
- Y mae'r gweithlu, felly yn UN gweithlu;
- Ceir safonau cytunedig a fydd yn berthnasol i bobl sy'n gweithio ym mhob rhan o'r proffesiwn gofal cymdeithasol;

[2] Adroddiad y Grwp Gorchwyl a Gorffen ar Faterion Gweithlu mewn Gofal Cymdeithasol, Medi 2001
[3] Adeiladu ar gyfer y Dyfodol, Papur Gwyn i Gymru, Mawrth 1999
[4] Gweler troednodyn 2
[5] Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd 2001-02

- Bydd angen darogan y gofynion o ran sgiliau a gweithlu ar lefel genedlaethol a rhanbarthol er mwyn cyflwyno gwasanaeth cynaliadwy a chystadlu gyda chyflogwyr eraill.

## 3.2 Blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru

Y mae'r sector gofal cymdeithasol yn chwarae rhan ganolog yn y gwaith o gyflawni strategaethau a pholisïau cyffredinol y Cynulliad fel y'u hamlinellir yn ***Cynllun i Gymru 2001, Y Wlad sy'n Dysgu, Cymru'n Ennill a'r Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth, Cronfeydd Strwythurol Ewrop, y Strategaeth Sgiliau Sylfaenol Cenedlaethol i Gymru, Cymunedau'n Gyntaf a Cymru Ar Lein.***

Y mae'r Sector Gofal yn chwarae rhan amlwg o fewn **Cynllun i Gymru 2001** ac felly hefyd gyfraniad y Cyngor Gofal wrth weithredu ar y Cynllun. Y mae gwerthoedd ac egwyddorion y Cyngor Gofal yn adlewyrchu prif egwyddorion y Cynllun. Adlewyrchir ymrwymiad y Cynulliad i bartneriaeth eisoes yng ngwaith y Cyngor Gofal, trwy'r pwyslais ar ymgynghori trylwyr a chreu Partneriaethau Gofal Cymdeithasol Rhanbarthol. Y mae cynhwysedd hefyd yn elfen ganolog o waith y Cyngor Gofal gyda defnyddwyr a chynhalwyr y gwasanaethau gofal cymdeithasol yn ganolog i agenda'r Cyngor Gofal. Cynhaliwyd saith gweithdy gyda defnyddwyr a chynhalwyr ar y Codau fel eu bod wedi'u grymuso i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i sefydlu a hyrwyddo safonau. Y mae'r Cyngor Gofal wedi coleddu egwyddorion cydraddoldeb ac wedi mabwysiadu'r polisïau ar gyfleoedd cyfartal ac ar yr iaith Gymraeg a ffurfiwyd gan CCETSW. Bydd tystiolaeth o'r polisïau hyn i'w gweld yng ngwaith y Cyngor Gofal wrth iddo ddatblygu ac adolygir y polisïau eu hunain dros amser.

Bydd Strategaeth Datblygu'r Gweithlu y Cyngor Gofal yn chwarae rhan bwysig o ran rhoi hwb i strategaeth ehangach y **Wlad sy'n Dysgu**. Yn ei dro, bydd agenda y Wlad sy'n Dysgu yn fuddiol i alluogi'r gweithwyr hynny yn y maes gofal cymdeithasol – menywod, dychwelwyr, y rhai dros 35 oed a gweithwyr rhan amser – i fanteisio ar gymwysterau a dysgu hyblyg, person-ganolog, fel y gallant chwarae rhan lawn mewn cyflogaeth, meithrin eu hyder a chyfrannu at eu cymunedau fel dinasyddion yn ogystal â chodi safonau gofal.

Bydd gweithredu ar Agenda Datblygu'r Gweithlu y Cyngor Gofal hefyd yn adlewyrchu'r agenda ehangach yn **Cymru'n Ennill** a'r **Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth** ar gyfer adfywio economi Cymru. Bydd y strategaeth a amlinellir ynddynt hefyd, gobeithio, yn adlewyrchu'r camau a gymerwyd gan y Cyngor Gofal i sefydlu cynlluniau partneriaethau rhanbarthol a chenedlaethol rhwng ystod o gyflogwyr a darparwyr addysg i sicrhau bod yr hyfforddiant yn addas i anghenion y sector cyflogaeth.

# 4. Targedau a Chyflawniadau

## 4.1 Rheoleiddio (Safonau ac Ymddygiad)

### 4.1.1 Ymgynghori ynghylch a chytuno ar y Codau Ymarfer ac Ymddygiad erbyn diwedd mis Mawrth 2002

Y mae'n ofynnol i Gyngor Gofal Cymru baratoi Codau Ymarfer sy'n amlinellu'r safonau ymddygiad ac ymarfer a ddisgwylir gan weithwyr cymdeithasol ac unrhyw rai sy'n cyflogi neu'n ceisio cyflogi gweithwyr o'r fath, ac yna ymgynghori yn eu cylch a'u cyhoeddi[6]. Ymgynghorodd y Cyngor Gofal ynghylch y Codau o fis Ionawr 2002 hyd ddiwedd mis Mawrth 2002.

Ystyriodd yr ymgynghoriad i ba raddau yr oedd y Codau drafft yn gynhwysfawr, yn eglur ac yn addas i'r pwrpas. Gwahoddwyd yr ymatebwyr hefyd i gynnig sylwadau mwy cyffredinol, os oeddent yn dymuno gwneud hynny. Yng Nghymru, cynhyrchwyd y pecyn yn ddwyieithog, yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Hysbysebwyd yr ymgynghoriad mewn 17 o bapurau newydd rhanbarthol a chenedlaethol. Anfonwyd tair mil o becynnau ymgynghori allan i randdeiliaid ac mewn ymateb i geisiadau gan weithwyr gofal cymdeithasol unigol ac aelodau o'r cyhoedd.

Yr oedd y broses ymgynghori yn effeithiol ac yn gadarnhaol. Cynhaliwyd un ar ddeg o sesiynau ymgynghori yn ystod y gwanwyn. Llwyddodd y pedwar gweithdy gofal cymdeithasol rhanbarthol i ddenu dros 200 o gynrychiolwyr a daeth oddeutu 50 o ddefnyddwyr i'r saith gweithdy a gynhaliwyd i ddefnyddwyr. Hefyd, bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn bresennol mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau a gynhaliwyd gan amryw o sefydliadau gan gynnwys cynhalwyr, defnyddwyr a chyrff proffesiynol. Derbyniwyd chwe deg a saith o ymatebion ysgrifenedig gan wahanol unigolion a chyrff, ac ymwelodd oddeutu 450 o bobl â gwefan benodol y Cyngor Gofal ar y codau.

Datblygwyd y Codau ymhellach trwy gyfrwng Grwp Cyfeirio o aelodau'r Cyngor. Gweithiodd y Grwp hwn gyda'r staff a grwpiau eraill cyffelyb yn nhri Cyngor arall y DU. Cafwyd cytundeb cyffredinol rhwng Adrannau'r Llywodraeth a'r rhanddeiliaid y dylai'r Codau fod fwy neu lai yr un fath i bob gwlad. Cynhyrchir drafft terfynol y Codau gan Grwp y Pedair Gwlad erbyn mis Mai 2002.

### 4.1.2 Datblygu rhaglen waith ar gyfer cofrestru, model ar gyfer cofrestru a system TG ar gyfer cofrestru

Y mae'n ofynnol i Gyngor Gofal Cymru gadw cofrestr o weithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol[7]. Pwrpas hanfodol cofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol yw rhoi gwell gwarchodaeth i'r cyhoedd, gan gynnwys y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau ac ennyn hyder y cyhoedd yn y maes gofal

[6] Adran 62, Deddf Safonau Gofal 2000
[7] Adran 56, Deddf Safonau Gofal 2000

cymdeithasol. Sefydlir y gofrestr mewn partneriaeth gyda Chynghorau tair gwlad arall y DU.

Cwblhawyd gwaith cychwynnol defnyddiol tuag at lunio model cofrestru ar gyfer y gweithlu cyfan yn 2000 a 2001 gan y Grwp Gwaith ar Godi Safonau yn y Gweithlu yng Nghymru, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Yr oedd Adrannau'r Llywodraeth yn y pedair gwlad hefyd wedi dechrau ar y gwaith o ddatblygu'r fanyleb ar gyfer prosiect i ymdrin â'r gwaith o gyflenwi a gweithredu system TG addas i ddarparu Cofrestr Gofal Cymdeithasol. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am y gwaith hwn o'r Llywodraeth i'r pedwar Cyngor ym mis Tachwedd 2001. Y Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol sy'n cymryd yr awenau ar ran y pedair gwlad. Y mae yna gynllun prosiect clir a bwrdd prosiect i oruchwylio datblygiad y prosiect TG o'r pryniant i'r profi. Y mae Cymru yn uniongyrchol gysylltiedig â'r gwaith hwn ar bob lefel.

Ym mis Mawrth 2002, cyflwynwyd fersiwn terfynol y Datganiad o Ofynion ar gyfer y Gofrestr Gofal Cymdeithasol i ddarpar gyflenwyr. Disgwylir cyhoeddi'r cytundeb i ddatblygu'r Gofrestr Gofal Cymdeithasol erbyn diwedd mis Gorffennaf 2002.

Y mae sefydlu'r gofrestr yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor Gofal gynhyrchu Rheolau i reoli mynediad i'r gofrestr o weithwyr gofal cymdeithasol; a Rheolau i reoli'r modd y gellir dileu person oddi ar y gofrestr.

Y mae aelodau a swyddogion y Cyngor Gofal, trwy grwp cyfeirio, wedi bod yn gysylltiedig â'r gwaith o ddrafftio'r Rheolau ac y maent wedi nodi materion i gael eu hystyried gan y Cyngor. Y bwriad yw y caiff y Rheolau eu cymeradwyo gan y Cyngor ym mis Mai ar gyfer ymgynghori yn eu cylch, ac yna eu cyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru i'w cymeradwyo erbyn mis Rhagfyr 2002.

### 4.1.3 Gweithredu ar y cynllun prosiect i ddiwygio hyfforddiant gwaith cymdeithasol, gan weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, Fforwm DipGC a rhanddeiliaid eraill

Y mae Cyngor Gofal Cymru wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a rhanddeiliaid eraill i weithredu ar benderfyniad y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflwyno cymhwyster gradd newydd ar gyfer Gwaith Cymdeithasol yn 2004. Dechreuodd y prosiect ym mis Tachwedd 2001 ac y mae'r Cyngor Gofal wedi cyfrannu at y deilliannau canlynol hyd yma:

- Sefydlu Grwp Llywio Polisi;
- Cyfarfod o Fwrdd y Prosiect bob deufis;
- Cadeirio'r Grwp Prosiect ar y Cymhwyster;
- Cadeirio'r Grwp Prosiect ar Reoleiddio, Datblygiad Proffesiynol Parhaus a'r dyfarniad Ôl-Gymhwyso;
- Aelodaeth o'r Grwpiau Prosiect ar Strwythur a Chyflwyniad y Rhaglen, Ariannu a Dysgu Ymarfer;
- Cwblhau'r gwaith a chymeradwyo'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol;
- Cefnogaeth weinyddol i'r holl Grwpiau Prosiect;

Y mae un o swyddogion y Cyngor Gofal hefyd yn aelod o Grwp Gweithredu a Phrosiect yr Adran Iechyd er mwyn sicrhau cysondeb â datblygiad y cymhwyster yn Lloegr.

### 4.1.4 Ymgymryd â dyletswyddau y Corff Rheoleiddio Hyfforddiant ac â chyfrifoldebau'r Corff Dyfarnu ar gyfer y Diploma mewn Gwaith Cymdeithasol (DipGC) a chymwysterau Ôl Gymhwyso (OG)

Y mae Cyngor Gofal Cymru yn gorff rheoleiddio a dyfarnu ar gyfer hyfforddiant cymhwyso ac ôl-gymhwyso yn y maes gwaith cymdeithasol. Trosglwyddwyd y cyfrifoldebau hyn o'r Cyngor Canolog Addysg a Hyfforddiant mewn Gwaith Cymdeithasol (CCETSW) ar 1[af] Hydref 2001[8]. Hysbyswyd y darparwyr a chafodd y dogfennau perthynol eu diweddaru yn ôl yr angen.

Derbyniwyd Datganiadau Sicrwydd Ansawdd Blynyddol (AQAR) oddi wrth saith o ddarparwyr addysg ers mis Hydref 2001. Cyflwynodd bump ohonynt dystiolaeth eu bod yn parhau i fodloni gofynion y Cyngor Gofal. Gofynnwyd i ddau am wybodaeth ychwanegol ac, o dderbyn honno, barnwyd eu bod yn bodloni'r gofynion.

O ganlyniad i archwiliad mewn i gwyn mewn perthynas ag un o Raglenni'r DipGC, dechreuwyd Archwiliad Cychwynnol ym mis Gorffennaf 2001. Cwblhawyd yr archwiliad gan y Cyngor Gofal. Yn dilyn camau cywiro, bernir bod y rhaglen, erbyn hyn, yn bodloni gofynion y Cyngor Gofal.

Caiff pob Dyfarniad o eiddo'r Cyngor Gofal eu sicrhau gan aseswyr allanol a gymeradwyir gan y Cyngor Gofal. Sefydlodd y Cyngor Gofal Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol (GSCC) i ddarparu Gwasanaeth Asesu Allanol ar gyfer yr holl Ddyfarniadau gan alluogi archwilio allanol i barhau. Cyfrannodd staff y Cyngor Gofal at y broses o recriwtio, dethol, sefydlu a monitro yr Aseswyr Allanol sy'n gweithio yng Nghymru. Cyfrannodd y staff hefyd at y gwaith o gynllunio a chyflwyno saith o ddigwyddiadau safoni i aseswyr allanol yn y pedair gwlad er mwyn sicrhau cysondeb ledled y DU.

Cynhyrchwyd dogfennau Sicrhau Ansawdd ar gyfer y Dyfarniad Rheoleiddio Gwasanaethau Gofal sydd newydd ei ddatblygu ac sydd, erbyn hyn, ar gael i'w ddefnyddio. Bydd darparwyr yn cyflwyno ceisiadau i gynnig y dyfarniad yn 2002/03.

Rhoddwyd arian i bartneriaeth o awdurdodau lleol yn Ne Cymru i gomisiynu Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd a Phrifysgol Caerdydd i ddatblygu Rhaglen OG 60 credyd i staff sy'n gweithio yn y maes Gofal Cymunedol. Cwblhawyd y gwaith ym mis Chwefror 2002 ac, ar hyn o bryd, y mae'n mynd trwy'r broses o gael ei achredu gan Gonsortiwm OG Cymru.

---

[8] Offeryn Statudol 2001 Rhif. 2561 Gorchymyn Cynllun Trosglwyddo 2001

## Cofrestru a Thystysgrifo

Y Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol (CGCC) sy'n ymgymryd â'r gwaith o gofrestru a thystysgrifo myfyrwyr ar ran Cyngor Gofal Cymru trwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG). Y mae hyn yn barhad o wasanaeth cofrestru a thystysgrifo myfyrwyr y DU a gynigiwyd gynt gan CCETSW.

Caiff cofrestrfa'r CGCC ei hysbysu o ymgeiswyr llwyddiannus ac y mae'n cyflwyno Tystysgrif Cyngor Gofal Cymru iddynt. Dengys y data canlynol y nifer a gofrestrwyd ac a dderbyniodd dystysgrif am gyflawni dyfarniad yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2001 a mis Mawrth 2002. Cymerwyd y ffigyrau ar gyfer y targedau o'r Datganiadau Sicrwydd Ansawdd Blynyddol am y flwyddyn dan sylw.

### Y Diploma mewn Gwaith Cymdeithasol

| DipGC | 2001/02 Targed | 2001/02 Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Cofrestriadau | 301 | 266 |
| Tystysgrifau | 252 | 230 |

Y mae'r ffigyrau cofrestru yn gysylltiedig â'r pedair rhaglen DipGC yng Nghymru. Awgrymant mai parhau a wna'r anhawster gyda chofrestru myfyrwyr. Nid yw'r data yn cynnwys y 32 o fyfyrwyr o Gymru a gofrestrwyd ac a ymunodd â Rhaglen Dysgu Agored Genedlaethol (y Brifysgol Agored) ym mis Chwefror 2002. Y mae nifer gyfunol y cofrestriadau yng Nghymru, felly, yn dod i 298 yn 2001/2002. Y nod yng Nghymru, hyd yna, fu cynnal nifer y myfyrwyr a dderbynnir ar lefel o 300. Y mae gwaith yn cael ei gwblhau gyda chyflogwyr i gadarnhau'r anghenion at y dyfodol.

Y mae'r gyfradd athreuliad at gyfer cyflawni dyfarniadau (tystysgrifo) yn adlewyrchu nifer gynyddol y myfyrwyr sy'n tynnu'n ôl am resymau megis anawsterau ariannol a chyflwyno agwedd fwy cadarn tuag at fethiant i fodloni safonau.

### Dyfarniadau Ôl Gymhwyso a Dyfarniadau Uwch

| Dyfarniadau Ôl Gymhwyso | 2001/02 Targed | 2001/02 Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Cofrestriadau | 200 | 76 |
| Tystysgrifau | 20 | 43 - OG Rhan 1<br>6 - OGGC |

| Dyfarniad Uwch | 2001/02 Targed | 2001/02 Gwirioneddol |
|---|---|---|
| Cofrestriadau | 20 | 14 |
| Tystysgrifau | 20 | 8 |

Ymddengys fod cymysgedd o faterion cymhleth yn gyfrifol am y gyfradd is ar gyfer cofrestru a chyflawni dyfarniadau yn achos y Dyfarniadau Ôl Gymhwyso, gan gynnwys:

- y flaenoriaeth a roddir gan gyflogwyr i OG Rhan 1 (llwyddodd 43 o ymgeiswyr i ennill Rhan 1, a oedd yn cynrychioli'r cyfanswm blynyddol uchaf);
- dim ond yn ddiweddar y mae ymgeiswyr o garfan gyntaf y Dyfarniad Gofal Plant (Tachwedd 2001) wedi dechrau cwblhau'r rhaglen;
- ansicrwydd ynghylch dyfodol y Dyfarniadau OG.

**Y Dyfarniad Gofal Plant**

| **Y Dyfarniad Gofal Plant** | **2001/02 Targed** | **2001/02 Gwirioneddol** |
|---|---|---|
| Cofrestriadau | 40 | 26 |
| Tystysgrifau | 35 | 8 |

Cofrestrodd carfan gyntaf y Dyfarniad Gofal Plant yn 2000. Cymhwysodd yr 8 ymgeisydd cyntaf ym mis Tachwedd 2001 a'r ail grwp o 8 ym mis Ebrill 2002. Cofrestrwyd yr ail garfan ym mis Medi 2001 ac y mae trefniadau i dderbyn trydydd grwp ym mis Ionawr 2003.

**Dyfarniad Addysgu Ymarfer**

| **Dyfarniad Addysgu Ymarfer** | **2001/02 Targed** | **2001/02 Gwirioneddol** |
|---|---|---|
| Cofrestriadau | 34 | 43 |
| Tystysgrifau | 27 | 26 |

**Iechyd Meddwl – Dyfarniad Gwaith Cymdeithasol Cymeradwy**

| **Iechyd Meddwl – Dyfarniad Gwaith Cymdeithasol Cymeradwy** | **2001/02 Targed** | **2001/02 Gwirioneddol** |
|---|---|---|
| Cofrestriadau | 18 | 26 |
| Tystysgrifau | 17 | 18 |

## 4.2 Datblygu'r Gweithlu

### 4.2.1 Datblygu model i wella'r broses o goladu, dadansoddi a defnyddio gwybodaeth am y gweithlu gan y sector erbyn mis Ebrill 2002

Y mae mynd i'r afael â recriwtio a chadw staff yn y sector gofal cymdeithasol yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Y Cyngor Gofal, trwy ei aelodaeth o'r Grwp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd gan Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n chwarae'r brif rôl mewn rhai o'r cynlluniau a sefydlwyd i weithredu ar yr agenda hon.

Trwy gynhyrchu *'Y Sector Gofal Cymdeithasol yng Nghymru – Diffiniadau a Sialensiau'* a gyhoeddwyd i gyd-fynd ag *'Adroddiad y Grwp Gorchwyl a Gorffen ar Faterion Gweithlu mewn Gofal Cymdeithasol'* ym mis Medi 2001, daethpwyd â gwybodaeth am y gweithlu ar gyfer y sector cyfan at ei gilydd am y tro cyntaf a nodwyd meysydd ar gyfer cyflawni gwelliannau pellach.

Cytunodd y Grwp Gorchwyl a Gorffen y dylai'r Cyngor Gofal gomisiynu rhagor o waith i:

- Bennu yr hyn y mae'r sector gofal cymdeithasol ei angen ar sail barhaus o ran gwybodaeth a dadansoddiad o'r gweithlu;
- Pennu'r prosesau a'r asiantaethau a fyddai'n darparu'r wybodaeth honno o bob rhan o'r sector – yn ddarparwyr gwirfoddol, preifat a statudol;
- Sefydlu'r prosesau a'r systemau a fyddai hwyluso gallu'r Cyngor Gofal i goladu, diweddaru, darparu a dadansoddi gwybodaeth am y gweithlu yn rheolaidd ac yn ôl angen y sector.

Yr oedd y canlyniadau'n cynnwys:

- Adroddiad am anghenion gwybodaeth y sector, y rhesymwaith dros yr anghenion hynny a photensial sefydliadau presennol i fodloni'r anghenion hynny;
- Templed gwybodaeth am y gweithlu i'w gyflwyno gan weithwyr unigol a chyflogwyr;
- Argymhellion ynghylch y prosesau a allai fod yn angenrheidiol i gyflwyno anghenion gwybodaeth gweithlu'r sector.

Bydd y templed gwybodaeth gweithlu yn cael ei brofi yn 2002/03 a bydd argymhellion yn cael ei cynhyrchu ar gyfer ei weithredu'n llawn ar draws y sector dros y tair blynedd nesaf.

### 4.2.2 Datblygu a chyhoeddi Fframwaith Sefydlu cyffredin i'r sector erbyn mis Mawrth 2002

Cydnabu gwaith ymchwil datblygiad a gynhaliwyd yn ystod 2001[9] fod proses sefydlu strwythuredig sydd wedi'i hasesu yn gyfrwng pwysig i gadw staff ac yn sylfaen i sicrhau gweithlu o ansawdd dda. Datgelodd hefyd fod cefnogaeth helaeth ar gyfer creu Fframwaith Cyffredinol ar gyfer Sefydlu, a hwnnw'n gysylltiedig â'r safonau galwedigaethol ar gyfer CGCau mewn Gofal ar Lefel 2 a Lefel 3. Cytunwyd hefyd i'r prif feysydd i'w cynnwys yn y Fframwaith fel rhan o'r ymgynghori hwn. Teimlai cyflogwyr mewn mudiadau bychain fod y Fframwaith yn fuddiol o ran paratoi i fodloni'r gofynion cynefino a bennwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn y Safonau Sylfaenol Cenedlaethol.

Y mae'r Fframwaith Sefydlu yn seiliedig ar:

- Y Safonau Galwedigaethol perthnasol;
- Yr ymarfer da ar hyn o bryd gan gyflogwyr yng Nghymru;
- Safonau Cynefino TOPSS yn Lloegr;
- Y gofynion cynefino yn y Safonau Sylfaenol Cenedlaethol drafft.

Cafwyd ymgynghori gyda ffocws pendant gyda chyflogwyr, grwpiau ymbarél a cholegau yn ystod mis Tachwedd a Rhagfyr 2001 a goruchwyliwyd y gwaith gan grwp llywio o gyflogwyr ledled y sector (gweler Atodiad 7).

Daeth yr ymgynghoriad i'r casgliad:

- Bod y Fframwaith yn glir ac yn hawdd ei ddeall;
- Bod y Gofynion Sefydlu yn addas;
- Mai'r farn gyffredinol oedd fod y Meysydd Craidd yn addas;
- Mai'r farn gyffredinol oedd fod y Deilliannau i'r Meysydd Craidd yn addas;
- Bod cynnwys, arddull a phatrwm cyflwyno'r Canllawiau, ar y cyfan, yn addas;
- Bod y pum adran yn drosglwyddadwy i weithwyr cymdeithasol a rheolwyr ond y byddai'n rhaid newid y Meysydd Craidd a'r Deilliannau perthynol er mwyn adlewyrchu eu meysydd gwaith.

Cymeradwyodd y Cyngor Gofal y Fframwaith ym mis Ionawr 2002. Cafwyd ymateb da iddo ac y mae eisoes yn cael ei ddefnyddio gan gyflogwyr ledled y sector. Cynhelir gweithdai ar y:

- Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol;
- Canllawiau i Weithwyr i'r Fframwaith;
- Arweiniad y Rheolwr i ddefnyddio'r Fframwaith.

yn ystod 2002/03.

[9] Strategaeth Mynediad i'r Gweithlu 'Caring for the Future' ar gyfer y Sector Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, Hydref 2001.

### 4.2.3 Diweddaru ac ailgyhoeddi'r Fframwaith Cymwysterau erbyn mis Mawrth 2002

Y mae'r Fframwaith Cymwysterau[10] yn amlinellu'r cymwysterau targed, y cymwysterau blaenorol a'r cymwysterau â chyswllt galwedigaethol y mae'r sector wedi cytuno iddynt ar gyfer y rhan fwyaf o swyddogaethau gwaith ar draws y sector gofal cymdeithasol. Dosbarthwyd y Fframwaith a'r daflen esboniadol i 3,000 o gyflogwyr unigol, darparwyr addysg a hyfforddiant, sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch, cyrff dyfarnu ac eraill. Y mae'r Fframwaith wedi'i groesawu gan y sector.

Yn ystod y chwe mis diwethaf:

- sefydlwyd Grwp Datblygu'r Fframwaith Cymwysterau i oruchwylio'r broses o adolygu'r Fframwaith;
- caiff protocolau a phrosesau eu cytuno gyda Chyrff Dyfarnu i ystyried datblygu cymwysterau newydd;
- cynhaliodd y Cyngor Gofal gyfarfod dilynol o Fforwm Cyswllt y Sector Gofal yng Nghymru sy'n dwyn ynghyd Gyrff Dyfarnu, Estyn, ACCAC, cynrychiolwyr Addysg Uwch ac eraill i drafod materion yn ymwneud â datblygu cymwysterau, cynnydd ac ansawdd y ddarpariaeth;
- cymerodd y Cyngor Gofal yr awenau gyda'r cynllun o gynnal cyfarfod bob chwe mis gyda phrif ymgynghorwyr y Fframwaith Cymwysterau ym mhob un o'r pedair gwlad er mwyn archwilio materion o ddatblygu a chysoni.

Nid oedd y gwaith cychwynnol ar y Fframwaith Cymwysterau yn rhoi sylw llawn i gymwysterau rheoli. Comisiynwyd gwaith i:

- ddiffinio ymhellach yr elfen reolaeth o fewn swyddogaethau penodol yn y sector;
- diffinio ymhellach lefel y cymwysterau rheoli a ddefnyddir, ac sy'n angenrheidiol i'r sector ar gyfer y swyddogaethau hynny;
- pennu perthynas cymwysterau proffesiynol a rheolaeth ar gyfer y swyddogaethau hynny;
- rhoi ystyriaeth i Adroddiad Cyd Arolwg y Comisiwn Archwilio ac Adroddiad Traws Sector Sgiliau Dyfodol Cymru lle tanlinellwyd yr angen i'r sector wella sgiliau rheoli ymysg ei weithlu.

Arweiniodd hyn at gynhyrchu adroddiad a oedd yn amlinellu nifer o argymhellion a chynigion ar gyfer cynyddu potensial rheolaeth y sector erbyn 2007. Yr oedd hefyd yn cynnwys swyddogaethau rheoli a thempled dosbarthu cymwysterau i'w dreialu. Byddir yn bwrw ymlaen ymhellach â'r gwaith hwn yn ystod 2002/03.

Goruchwyliwyd y gwaith gan Grwp Llywio o gynrychiolwyr o bob rhan o'r sector (gweler Atodiad 7).

Yr oedd Cyngor Gofal Cymru yn ymwneud â chydweithwyr ledled y DU i ddatblygu strategaeth asesu ar gyfer Dyfarniad i Reolwyr Cofrestredig Gofal Preswyl i Oedolion. Y mae'r Dyfarniad, erbyn hyn, wedi'i gymeradwyo o fewn fframwaith cymwysterau Yr Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm.

---

[10] Cymeradwywyd gan Bwyllgor CCETSW ym mis Mai 2001 a chyhoeddwyd ym mis Medi 2001

### 4.2.4 Creu Fframwaith Diploma Sgiliau Modern i Oedolion (MSDA) ar gyfer y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol erbyn mis Mawrth 2002.

Nod yr MSDA yw gwneud economi Cymru yn fwy cystadleuol trwy godi lefelau'r sgiliau ledled yr holl sectorau busnes a'r holl weithlu llafur yng Nghymru (25 oed a hyn). Trwy wahoddiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac ELWa, ymrwymodd Cyngor Gofal Cymru i ddatblygu Fframwaith MSDA yn benodol ar gyfer Gofal Cymdeithasol.

Y mae'r ymgeiswyr a dargedwyd ar gyfer y rhaglen wedi'u diffinio gan Grwpiau Datblygu Gweithlu'r Sector yn ystod y ddwy flynedd a aeth heibio. Y mae'r Fframwaith MSDA yn ddatblygiadol a'i fwriad yw gwella'r gwaith o gynllunio dilyniant i gyd-fynd â gofynion cyflogwyr yn ôl blaenoriaeth, i wella a datblygu sgiliau ac effeithioldeb y rheolwyr cofrestredig presennol ac i baratoi rheolwyr y dyfodol.

Y mae'r Fframwaith hwn wedi'i arwain a'i oruchwylio gan grwp llywio a ffurfiwyd o blith rhanddeiliaid allweddol y sector ac y mae wedi'i gysylltu â rhwydweithiau eraill Cyngor Gofal Cymru (gweler Atodiad 7). Datblygwyd y manylion trwy broses ymgynghori sydd wedi cynnwys tri gweithdy gyda hwylusydd (lle'r oedd 60 cynrychiolydd ar draws y sector yn bresennol) i gael atborth manwl. Dilynwyd hyn gan arolwg helaethach trwy'r post o'r fframwaith diwygiedig gyda nodiadau briffio a chwestiynau allweddol ac ymgynghori ar y we.

Y mae'r ffigyrau ar ddiwedd mis Mawrth yn dangos fod dros 200 o ymgeiswyr gofal cymdeithasol wedi'u cofrestru ar y fframwaith MSDA presennol (allan o 780 o lefydd yng Nghymru).

### 4.2.5 Datblygu Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yng Nghymru

Gan y Cyngor Gofal y mae'r cyfrifoldeb dirprwyedig i ddatblygu Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGCau).

Parhaodd y Cyngor Gofal gyda'r cais a dderbyniodd CCETSW gan y Llywodraeth yn 2000 i ddatblygu Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol. Aeth y gwaith rhagddo trwy gydol 2001. Rhwng mis Hydref 2001 a mis Mawrth 2002, cyflawnwyd y canlynol:

- Anfonwyd ail ddrafft y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGCau) allan i ymgynghoriad at 160 o sefydliadau yng Nghymru;
- Cynhaliwyd gweithdai ymgynghori ym mis Hydref a Thachwedd ym Mangor, Wrecsam, Abertawe a Chaerdydd. Yr oedd yno oddeutu 90 o gyfranogwyr;
- Cynhaliwyd chwe chyfarfod gydag ymarferwyr gwaith cymdeithasol mewn gwahanol leoliadau yng Nghymru. Yr oedd 30 o ymarferwyr yn bresennol;
- Yr oedd yr holl brosesau ymgynghori yn goleuo'r drafft terfynol;
- Cyfarfu Grwp Prosiect Cyngor Gofal y DU deirgwaith i weithio gydag Ymgynghorwyr Prosiect i gwblhau datblygiad y SGCau;
- Cytunodd Cyngor Gofal Cymru i'r SGCau ym mis Mawrth 2002 i'w hargymell i Bartneriaethau y DU.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r gwaith gan Grwp Safonau Galwedigaethol Cymru (GSG) yn chwarterol. Yr oedd y canlyniadau i Gymru wedi goleuo proses o greu SGCau y cytunwyd arnynt gan Grwp Safonau Galwedigaethol TOPSS UK a Phartneriaeth y DU.

Y mae'r Grwp Safonau Galwedigaethol yng Nghymru wedi cynhyrchu strategaeth ddrafft ar gyfer datblygu SGCau yng Nghymru. Yr oedd hyn yn arwyddocaol gan ei fod wedi goleuo model y DU ar gyfer datblygu SGCau a blaenoriaethau ar gyfer y cynllun 3 blynedd nesaf (2003-2006).

Bu cynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn y broses o greu SGCau yn flaenoriaeth yng Nghymru. Cynhaliwyd dau brif ymgynghoriad gyda defnyddwyr gwasanaethau er mwyn rhoi'r model a ddatblygwyd gan CCETSW/TOPSS Cymru ar brawf. Cynhaliwyd wyth gweithdy gyda hwylusydd ac y mae cyfraniad defnyddwyr y gwasanaethau yn gwbl amlwg yn y SGC a ddatblygwyd ar gyfer Rheolwyr Cartrefi Plant a'r SGC ar gyfer Gwaith Cymdeithasol.

Y mae Cyngor Gofal Cymru wedi chwarae rhan lawn yn y gwaith o ddatblygu cyfres o SGCau ar gyfer **Rheolwyr Cofrestredig Gofal Preswyl i Blant.** Y mae cynhyrchu'r Safonau Galwedigaethol hyn wedi cynnig cyfle amlwg i archwilio a chadarnhau'r tasgau a'r sgiliau sy'n ofynnol gan reolwyr gofal plant preswyl er mwyn bodloni'r agenda moderneiddio gan gynnwys rheoleiddio'r gweithlu a'r Safonau Sylfaenol Cenedlaethol. Y mae gwella sgiliau rheolwyr a'u canolbwyntio'n briodol i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl i blant sy'n derbyn gofal yn un o brif amcanion y llywodraeth. Gellir cysylltu'r Safonau Galwedigaethol hyn i gymhwyster a gynlluniwyd i ddatblygu rheolwyr sy'n meddu ar y lefel ofynnol o hyfedredd a sgiliau arwain.

Yr oedd yr ymgynghoriad a aeth rhagddo ar y safonau drafft yn cynnwys gweithdai a chyfarfodydd gyda phlant a phobl ifanc, rheolwyr presennol o blith darparwyr preifat/gwirfoddol/statudol, aseswyr a gwirwyr sy'n gweithio gyda'r grwp hwn o staff, Swyddogion Hyfforddiant Gofal Plant, Rhwydwaith Gofal CGC Cymru – canolfannau asesu a darparwyr hyfforddiant a Staff Gofal Plant Preswyl. Yr oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyflogwyr hefyd yn gysylltiedig â'r gwaith trwy'r grwp llywio (gweler Atodiad 7). Y mae'r gwaith o adolygu'r safonau arfaethedig a fydd yn deillio o hyn, i'w gwblhau erbyn mis Medi 2002.

Ymgymerwyd â Cham 1 o'r **Cyd Arolwg o'r SGCau a'r Dyfarniadau ym maes Gofal** gyda Healthworks UK a TOPSS Lloegr, Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban a Chyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon. Y mae'r prosiect hwn yn cwmpasu'r SGCau gan ymdrin â chymhwyster galwedigaethol, yn unol â'r argymhelliad, i oddeutu 80% o'r gweithlu Gofal Cymdeithasol, gan gynnwys Gofal Lefel 2/3/4, Gofalu am Blant a Phobl Ifanc, a Hybu Annibyniaeth. Bu hwn yn brosiect cymhleth ac yr oedd yn rhaid wrth weithio mewn partneriaeth ar lefel uwch a chyfraniad sylweddol gan swyddogion. Cynlluniwyd a chynhaliwyd arolwg dwyieithog. Cynhaliwyd gweithdai Cyngor Gofal Cymru yng Ngogledd a De Cymru i gynhyrchu ymateb llwyddiannus i'r arolwg (83 o Gymru) mewn partneriaeth â Rhwydwaith Gofal CGC Cymru.

Y mae'r data wedi'i ddadansoddi a chynhyrchwyd map galwedigaethol gydag argymhellion ar gyfer Cam 2 (arolwg manwl o'r SGCau a'r Dyfarniadau). Bu angen amser, ymdrech a sensitifrwydd sylweddol i gyflawni'r canlyniadau hyn ac i oresgyn

y gwahaniaethau sylweddol a ddaeth i'r amlwg rhwng amcanion a blaenoriaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer yr arolwg hwn.

Y mae'r Cyngor Gofal wedi gweithio gyda Healthworks UK sy'n arwain datblygiad **SGCau i staff yn y gwasanaethau iechyd meddwl**. Ymgynghorodd y Cyngor Gofal ynghylch y map galwedigaethol gyda dros 200 o gyflogwyr yn y maes iechyd meddwl. Dylai'r gwaith hwn fod wedi'i gwblhau yn ystod yr haf 2003.

Noddodd Gyngor Gofal Cymru Rwydwaith Gofal CGC yn rhannol i gynnal tri gweithdy a chafwyd cyfraniadau gan swyddogion a Chadeirydd y Cyngor. Yr oedd y ddau weithdy cyntaf (lle cafwyd 64 o gynrychiolwyr) yn canolbwyntio ar yr Arolwg o'r SGCau a'r Dyfarniadau Gofal a Datblygiad Dyfarniadau Newydd i Aseswyr a Gwirwyr. Yn y trydydd gweithdy (gyda 53 o gynadleddwyr) aethpwyd i'r afael â'r Modelau Asesu a chafwyd cyflwyniad gan y Cyngor Gofal ar yr Arolwg o Safonau Gofal. Dosbarthwyd adroddiad ar ganlyniadau'r gweithdai i'r cyfranogwyr.

### 4.2.6 Dosbarthu pecyn gwybodaeth ar gyfleoedd ariannu erbyn mis Chwefror 2002

Datblygwyd y pecyn ariannu fel modd i bwysleisio'r nawdd a'r gefnogaeth sydd ar gael i ddatblygu busnesau, hyfforddiant a chynlluniau datblygu. Y mae cyflogwyr sy'n gysylltiedig â busnesau gofal cymdeithasol bach yn aml iawn yn mynegi pryder ynghylch yr anallu i gael at arian i gefnogi hyfforddiant a datblygiad. Yr oedd y pecyn yn tanlinellu gwahanol anghenion posibl cyflogwyr neu weithwyr gan ddangos y ffordd at yr amrywiol opsiynau a oedd ar gael iddynt gan gynnwys sefydliadau a allai ddarparu'r cymorth neu'r gefnogaeth ariannol angenrheidiol.

Cwblhawyd gwaith ymchwil ynghylch cyrchu at nawdd ar gyfer hyfforddiant, datblygiad a chymhwyster yn y sector gofal cymdeithasol ac amlinellwyd yn wybodaeth mewn cyfres o daflenni i gyflogwyr a staff mewn canolfannau preifat a gwirfoddol. Dosbarthwyd dros 3000 o daflenni i ddarparwyr gofal cymdeithasol. Y mae deialog parhaus ar gyfer adborth a gwerthuso yn cael ei datblygu.

Cynhaliwyd trafodaethau hefyd gydag ELWa ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol er mwyn edrych ar ffyrdd o gael mynediad at nawdd i ddatblygu'r gweithlu yn y maes gofal cymdeithasol. Y mae'r trafodaethau hyn yn parhau.

### 4.2.7 Datblygu a chyhoeddi gwybodaeth addas am yrfaoedd erbyn mis Ebrill 2002

Comisiynwyd gwaith gan y Cyngor Gofal, ar ran y Grwp Gorchwyl a Gorffen, i gyflawni pum Ffair Swyddi peilot ar gyfer y sector gofal cymdeithasol ledled Cymru, rhwng mis Rhagfyr 2001 a mis Mawrth 2002:

- Penarth - Rhagfyr 2001
- Aberystwyth - Chwefror 2002
- Llangefni - Mawrth 2002
- Abertawe - Mawrth 2002
- Pont-y-pwl - Mawrth 2002

Cyflawnwyd pob un o'r pum Ffair Swyddi mewn partneriaeth rhwng y Cyngor Gofal a'r Bartneriaeth Ranbarthol Gofal Cymdeithasol berthnasol. Yr oedd cyflogwyr, darparwyr Addysg Bellach/Addysg Uwch, darparwyr hyfforddiant preifat ac asiantaethau eraill e.e ELWa, Gyrfa Cymru, y Gwasanaeth Cyflogi, Asiantaethau Recriwtio yn bresennol. Daeth dros 800 o bobl i'r ffeiri. Yn ôl yr arwyddion cynnar, yr oeddent yn llwyddiant. Yr oedd cyflogwyr yn gwerthfawrogi cael gweithio ar y cyd ar lefel ranbarthol. Hefyd, dangoswyd diddordeb mawr mewn cyfleoedd gwaith yn y sector gofal cymdeithasol. Cyflwynir gwerthusiad a fydd yn seiliedig ar adborth gan y bobl a oedd yn bresennol a chan yr arddangoswyr i'r Grwp Gorchwyl a Gorffen yn 2002/03 i oleuo camau gweithredu pellach.

Sefydlwyd gwasanaeth gwybodaeth gyrfaoedd rhadffôn ym mis Hydref 2001 i gyd-fynd â chynllun cyffelyb a gyflwynwyd gan yr Adran Iechyd yn Lloegr. Nodwyd y rhif ffôn ar bob hysbyseb i'r Ffeiriau Swyddi (papurau newydd a radio), ac ar lyfrynnau a gwybodaeth gyrfaoedd a beiros i roi cyhoeddusrwydd. Derbyniwyd 492 o alwadau rhwng mis Hydref 2001 a mis Mawrth 2002. Byddir yn parhau â'r gwasanaeth hwn yn 2002 a bydd yn ategu cynlluniau eraill.

Cynhyrchwyd cyfres o ffeithddalennau am yrfaoedd, yn dangos rhai o'r rolau o fewn y sector gofal cymdeithasol a hefyd rhai o'r cymwysterau allweddol sy'n berthnasol i'r sector. Rhoddwyd y rhain ar brawf gyda dros 120 o gyflogwyr, darparwyr Addysg Bellach/Addysg Uwch, darparwyr hyfforddiant preifat a'r saith cwmni Gyrfa Cymru. Yr oedd yr adborth a gafwyd ar y deunydd yn hynod gadarnhaol. Hefyd, cynhyrchwyd llyfryn gyrfaoedd generig a defnyddiwyd hwnnw, a'r ffeithddalennau, fel adnodd ar gyfer y Ffeiri Swyddi a gynhaliwyd yn 2001 a 2002.

### 4.2.8 Datblygu a gweithredu Strategaeth Datblygu'r Gweithlu ar gyfer y sector yng Nghymru erbyn Ebrill 2002

Y mae'r Cyngor Gofal wedi dechrau mapio'r Strategaeth Gweithlu gynhwysfawr gyntaf erioed ar gyfer y sector gofal cymdeithasol. Pwrpas y Strategaeth fydd cefnogi'r broses o godi safonau o fewn y gweithlu gofal cymdeithasol. Bydd yn dwyn ynghyd yr hyn sydd eisoes ar waith a'r hyn a wyddys am y sector. Bwriad y Strategaeth yw helpu cyflogwyr ac eraill i gyflawni nod y Papur Gwyn o ddatblygu gweithlu gofal cymdeithasol sy'n meddu ar y sgiliau priodol ac sydd wedi ymgymhwyso'n briodol. Bydd y Strategaeth hefyd yn nodi'r adnoddau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r prif nod hwn.

Bydd y Strategaeth yn amlinellu:

- Galw a chyflenwad y Gweithlu – y sialens o recriwtio a chadw staff;
- Bylchau a phrinder o ran sgiliau – galw a chyflenwad at y dyfodol – rhagolwg;
- Delwedd o'r sector a datblygu gyrfa – yr anghenion presennol a'r anghenion at y dyfodol;
- Safonau galwedigaethol, meincnodau rhagoriaeth, potensial adnoddau dynol – yr anghenion presennol a'r anghenion at y dyfodol;
- Hyfedredd a photensial Rheolaeth – yr anghenion presennol a'r anghenion at y dyfodol;
- Cyflawni cymwysterau – y cyflawniadau presennol, y targedau, cyflenwi addysg a hyfforddiant a'r anghenion at y dyfodol;
- Nawdd ac adnoddau.

Comisiynodd y Cyngor Gofal Strategaeth Cysylltiadau Cyhoeddus dros gyfnod o dair blynedd ar gyfer y Sector Gofal Cymdeithasol. Y nod yw codi proffil a delwedd y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru. Cymeradwyodd y Grwp Gorchwyl a Gorffen y strategaeth a gynhyrchwyd gan Equinox ym mis Hydref 2001.

Comisiynwyd prosiect ym mis Mawrth 2002 i gynhyrchu deunyddiau y gellir eu defnyddio i hyrwyddo a chodi proffil y sector gofal cymdeithasol trwy ddefnyddio geiriau a delweddau sy'n adlewyrchu profiadau gwirioneddol y bobl sy'n defnyddio ac yn cyflwyno'r gwasanaethau gofal cymdeithasol. Bydd y deunyddiau ar ffurf fideo, CD Rom ac astudiaethau achos o'r bobl a gaiff eu cyfweld.

Y mae'r Cyngor Gofal wedi'i gynrychioli mewn cyfres o gyfarfodydd gyda mudiadau gwirfoddol a phreifat i edrych ar rai o'r rhwystrau rhag datblygu'r gweithlu a rhag cyflawni cymwysterau. Cyhoeddodd y Cyngor Gofal erthygl yn argraffiad mis Ionawr o Rhwydwaith, sef cylchgrawn Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, gyda'r nod o esbonio rôl a chylch gorchwyl y Cyngor Gofal.

### 4.2.9 Arolygu, rheoli a hyrwyddo Fframweithiau Prentisiaethau Modern (PMau) a Rhaglenni Cenedlaethol i Hyfforddeion erbyn mis Mawrth 2002

Mewn arolwg llawn, a gynhaliwyd gan y Cyngor Gofal, diweddarwyd y Fframweithiau yn unol â'r anghenion cyflogaeth a chysylltu'r gofynion newydd ar gyfer rhaglen ddysgu ar sail gwybodaeth (Tystysgrif Dechnegol). Y mae'r canlyniadau hyn yn unol â thargedau a gofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer PMau. Cynhaliwyd gweithdai ar y Fframwaith drafft a daeth dros 80 o gyflogwyr a darparwyr hyfforddiant yno. Y mae'r Cyngor Gofal wedi bod yn llwyr gysylltiedig â'r datblygiad i sicrhau fod y Fframweithiau'n rhoi sylw i ddatblygiadau ôl 16 yng Nghymru. Y mae gan y sector gofal cymdeithasol, erbyn hyn, gyfle i hyrwyddo a defnyddio'r rhaglenni noddedig hyn i gyflawni'r dysgu angenrheidiol a'r cymwysterau sy'n seiliedig ar hyfedreddau.

### 4.2.10 Cefnogi'r Partneriaethau Gofal Cymdeithasol Rhanbarthol sydd newydd eu sefydlu ac adolygu cynnydd a gweithrediad eu cynlluniau gweithredu

Sefydlwyd Partneriaethau Gofal Cymdeithasol Rhanbarthol ym mhob un o bedwar rhanbarth Cymru yn 2001.

Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2001 yr oedd bob Partneriaeth wedi cytuno:

- cefnogi datblygiad Partneriaeth Gofal Cymdeithasol Ranbarthol gynhwysol ar gyfer pob rhanbarth;
- sefydlu Cynllun Gweithredu Gofal Cymdeithasol Rhanbarthol ar gyfer 2001-3;
- cyfrannu at, a dylanwadu ar, yr agenda Gofal Cymdeithasol genedlaethol trwy Bwyllgor Datblygu Gweithlu y Cyngor Gofal;
- cyfrannu at, a dylanwadu ar, strategaeth genedlaethol a rhanbarthol ELWa.

Y mae 280 o sefydliadau yn gysylltiedig â'r Partneriaethau (gweler Atodiad 7 am restr o'r aelodau) a chrëwyd Grwpiau Strategol. Bydd cynrychiolydd enwebedig o bob un o'r pedwar Grwp Strategol yn aelod o Bwyllgor Datblygu Gweithlu y Cyngor.

Y mae pob Partneriaeth wedi cynnal diwrnodau cynllunio i ddatblygu cynllun rhanbarthol i ymdrin â:

- chodi proffil y sector, recriwtio, cadw a chynnydd y staff;
- sicrhau darpariaeth addas o addysg a hyfforddiant;
- adnoddu anghenion y sector.

Y mae canlyniadau'r bartneriaeth hyd yma yn cynnwys:

- pum Ffair Swyddi - cafwyd arddangosfeydd gan 77 o sefydliadau gyda dros 800 o bobl wedi mynychu;
- gweithdy i drafod y gwersi a ddysgwyd o'r adroddiad *'Care to Stay'*[11]*;*
- archwilio cyfraniad posibl Bargen Newydd y Gwasanaeth Cyflogi tuag at recriwtio;
- cyfarfodydd rhwng cyflogwyr a darparwyr addysg a hyfforddiant i archwilio sut y gellir diwallu gofynion darparu'r cyflogwyr gofal cymdeithasol.

### 4.2.11 Llunio cais i fod yn Gyngor Sgiliau Sector erbyn mis Mawrth 2002

Y mae Cadeirydd a Phrif Weithredwr Cyngor Gofal Cymru wedi bod yn cyfarfod gyda'u swyddogion cyfatebol yng Nghynghorau Gogledd Iwerddon a'r Alban a Chadeirydd a Phrif Weithredwr TOPSS[12] Lloegr ers mis Tachwedd 2001. Y nod ar y dechrau oedd trosglwyddo polisi a threfn lywodraethu TOPSS i'r sefydliadau newydd a fyddai'n ffurfio Partneriaeth TOPSS y DU. Fodd bynnag, o ystyried cyhoeddiad y Llywodraeth i wneud i ffwrdd â'r Cyrff Hyfforddi Cenedlaethol ac i greu Cynghorau Sgiliau Sector (CSSau) i'w disodli, cytunodd Cadeiryddion y pedair gwlad i gefnogi mewn egwyddor y cynnig y dylai TOPSS fod yn CSS[13].

Er nad oedd cais 'blaengar' y CSS yn llwyddiannus, aeth gwaith rhagddo i sefydlu CSS sy'n seiliedig ar fodel partneriaeth ar draws y pedair gwlad. Bydd creu CSS yn galluogi'r sector gofal cymdeithasol i gynnal ei amlygrwydd fel cyflogwr allweddol sy'n chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gyflawni agenda ehangach y llywodraeth, o safbwynt economaidd, dysgu gydol oes a chynhwysiant cymdeithasol.

Bu'r Cyngor Gofal yn aelod o Grwp Sector Polisi Cymdeithasol Cyngor SHC a mynychwyd cyfarfodydd perthnasol y Grwp hwn. Y brif nod yw sicrhau y caiff anghenion y Sector gofal cymdeithasol eu cynrychioli trwy'r grwp.

Cynhaliwyd gweithdy ym mis Mawrth gan y Grwp i sefydlu "adroddiad deialog sgiliau sector" a oedd yn canolbwyntio ar faterion recriwtio a chadw staff a materion datblygu rheolwyr yn y "sector" polisi cymdeithasol. Yr oedd cynrychiolwyr o'r Partneriaethau Gofal Cymdeithasol Rhanbarthol yn bresennol i roi safbwynt cyflogwyr yn y maes gofal cymdeithasol. Yr oedd y gweithdy yn un o bedwar a gynhaliwyd yn y DU a daeth y gwaith i'w benllanw gydag adroddiad deialog sgiliau sector y DU.

---

[11] 'Care to stay? Adroddiad ar recriwtio a chadw staff gwaith cymdeithasol a gofal cymdeithasol', Sefydliad Hyfforddi Cenedlaethol Llywodraeth Leol a Chorff y Cyflogwyr
[12] Sefydliad Hyfforddi i'r Gwasanaethau Cymdeithasol Personol
[13] Cyngor Sgiliau Sector a sefydlwyd gan yr Adran Addysg a Sgiliau i ddisodli'r Sefydliadau Hyfforddi Cenedlaethol

### 4.2.12 Datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar Raglenni'r Diploma mewn Gwaith Cymdeithasol

Y mae'r prosiect hwn wedi'i weithredu fesul cam dros y tair blynedd diwethaf gyda'r nodau canlynol:

- Nodi'r hyn sy'n ofynnol i ddatblygu a chynnal darpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn y DipGC gyda Rhaglenni'n gweithio mewn partneriaeth;
- Sefydlu grwp llywio fel is-grwp o Fforwm y DipGC i adolygu datblygiad gweithredu'r prosiect ac i gydlynu ymdrechion ar draws y Rhaglenni;
- Hyrwyddo datblygiadau o fewn pob Rhaglen i ymestyn y ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn y tymor byr gyda'r nod o sicrhau cynnydd strategol i alluogi'r Rhaglenni i ymestyn y ddarpariaeth yn y tymor canolig a'r tymor hir;
- Cynyddu nifer y myfyrwyr sy'n defnyddio'r iaith Gymraeg ar lefel broffesiynol;
- Sefydlu rhaglen waith gydag athrawon ymarfer i hybu dwyieithrwydd mewn lleoliadau;
- Dethol modelau ymarfer da o feysydd proffesiynol eraill lle ceir profiad o addysgu dwyieithog er mwyn cyflwyno elfennau addysgu dwyieithog ar draws y Rhaglenni.

Y mae'r canlyniadau a gyflawnwyd yn y chwe mis dan sylw yn cynnwys y canlynol:

- Datblygwyd modiwl dwyieithog ar Ymarfer Gwaith Cymdeithasol gan gynnwys gwella sgiliau gan Brifysgol Abertawe. Y mae'r modiwl yn defnyddio deunyddiau addysgu gweledol dwyieithog a hefyd yn cynnig gweithdai cyfrwng Cymraeg a dwyieithog gyda hyfforddwyr allanol.
- Datblygwyd fideo a llyfr gwaith dwyieithog ar werthoedd gan Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru. Noddwyd hwn ar y cyd gan Uned Datblygu Dwyieithrwydd Prifysgol Cymru.
- Datblygwyd deunyddiau dwyieithog ar gyfer modiwlau Gofal Cymunedol a Phlant a Theuluoedd ar y cyd gan Brifysgol Caerdydd ac Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd (yr Athrofa).
- Cynhyrchwyd taflen 'Dulliau Addysgu Dwyieithog' ac fe'i dosbarthwyd i bob Rhaglen DipGC. Seiliwyd y daflen ar ganlyniadau cyfres o weithdai a hwyluswyd gan Dr Cen Williams, Uned Datblygu Dwyieithrwydd Prifysgol Cymru, ar gyfer holl staff addysgu'r Rhaglenni.
- Trefnwyd darlith Gymraeg Agored ar y cyd gan Brifysgol Caerdydd a'r Athrofa ar 'Waith Cymdeithasol, Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol yng Nghymru'. Daeth dros 20 o bobl i wrando ar y ddarlith hon yn yr Athrofa yng Nghaerdydd. Bwriedir trefnu darlith arall i ddilyn.
- Er mwyn diwallu anghenion dynodedig myfyrwyr ac ymarferwyr i wella'r iaith Gymraeg, comisiynwyd cyrsiau iaith penodol ar gyfer y maes gofal cymdeithasol a'u datblygu ar gyfer:
  - ~ Dechreuwyr
  - ~ Gwella sgiliau llafar a meithrin hyder
  - ~ Gwella sgiliau ysgrifenedig a meithrin hyder.

  Y mae pob rhaglen wedi rhedeg un neu ragor o'r cyrsiau yn ystod y 6 mis a aeth heibio ac y maent, yn awr, yn y broses o werthuso'r canlyniadau.
- Dosbarthwyd dros 800 copi o lyfryn i fyfyrwyr ac athrawon ymarfer – *'Practice Teaching and the Welsh Language – Providing Opportunities for DipSW Students'*. Y mae gwaith ar y gweill erbyn hyn i werthuso profiad y myfyrwyr a'r athrawon ymarfer wrth iddynt hyrwyddo ymarfer sy'n sensitif tuag at yr iaith.

- Daeth 40 o bobl i Fforwm Dwyieithog ar gyfer ymarferwyr, hyfforddwyr a myfyrwyr ar 'Quality Services: A Skilled, Bilingual Workforce – The Way Ahead'

Y mae'r Grwp Llywio ar gyfer y prosiect hwn, gyda chynrychiolwyr o bob Rhaglen, wedi cyfarfod yn rheolaidd i gydlynu'r gwaith a rhannu syniadau, gwybodaeth ac ymarfer da.

Comisiynwyd adroddiad i werthuso canlyniadau ac effeithioldeb y prosiect hwn. Bydd yr adroddiad yn goleuo'r ystod o gynlluniau a roddwyd ar waith i ddiwygio hyfforddiant cymhwyso.

## 4.3 Alldaliadau a Bwrsariaethau

### 4.3.1 Sicrhau y caiff arian ar gyfer alldaliadau ei ddyrannu a'i fonitro yn unol â'r polisïau a'r canllawiau

Rhoddwyd grantiau i bum rhaglen DipGC yng Nghymru ac i Gonsortiwm Ôl Gymhwyso Cymru i'w galluogi i weithredu trefniadau rheoli cydweithredol a bodloni rhagofynion y cytundeb sy'n ofynnol gan y Cyngor Gofal.

Y Cyngor Gofal a ymgymerodd â'r gwaith o reoli, gweinyddu a monitro'r cynllun Ariannu Lleoliadau Ymarfer (ALlY) sy'n cynnig arian i gyflogwyr i ddarparu cyfleoedd dysgu ymarfer i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol. Yn ystod 2001/02, noddwyd 316 o leoliadau yn y sector statudol a noddwyd 232 o leoliadau yn y sector annibynnol. Y dyraniad cyllideb ar gyfer 2001/02 oedd £547k. Daeth y gwariant gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn i gyfanswm o £495k a gwariwyd £319k o hwnnw gan y Cyngor Gofal a'r gweddill gan ei ragflaenydd, CCETSW Cymru. Y mae'r cwmpas o resymau sy'n ei gwneud yn anodd rhagweld yn fanwl beth fydd y gwariant blynyddol ar ALlY yn eang. Telir am leoliadau yn ôl cyfraddau gwahanol yn y sector statudol a'r sector annibynnol. Seilir y gyllideb ar 50% o leoliadau yn y naill sector a'r llall. Arweiniodd y cynnydd mewn lleoliadau yn y sector statudol at danwariant.

Trefnodd y Cyngor Gofal a Llywodraeth Cynulliad Cymru weithdy ar gyfer cynrychiolwyr Awdurdod Lleol a Rhaglenni i ystyried ffyrdd o greu cynnydd yn nifer y lleoliadau ymarfer o safon yn y sector statudol. Cynhaliwyd y gweithdy ar Fawrth 1af 2002 ac yr oedd yno 22 o gynrychiolwyr. Y mae'r Cyngor Gofal a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithredu ar y cynigion a wnaed ar y diwrnod.

Un o argymhellion y Grwp Gorchwyl a Gorffen oedd datblygu cynllun i wella'r lwfans teithio a delir i fyfyrwyr sy'n ymgymryd â hyfforddiant DipGC ar lwybrau gwahanol i'r rhai i raddedigion. Cymeradwywyd y cynllun gan y Cyngor ym mis Rhagfyr 2001 fel cynllun i ymateb i'r gostyngiad yn nifer y ceisiadau ar gyfer y DipGC a'r anawsterau ariannol a wynebir gan y myfyrwyr. Fe'i cyflwynwyd ar gyfer blwyddyn academaidd 2001/02 a byddir yn gwerthuso'r effaith a gaiff yn 2002.

## 4.4 Cynllunio a Chreu Cyngor Newydd

Y mae'r Cyngor wedi cyfarfod yn fisol ers mis Hydref 2001. Cynhaliwyd sesiwn sefydlu dros ddau ddiwrnod i'r 20 aelod o'r Cyngor ac i'r Cadeirydd ym mis Tachwedd 2001 (gweler Atodiad 1 am restr o aelodau'r Cyngor). Yr oedd swyddogion yn briffio'r aelodau am rôl y Cyngor Gofal a chafwyd cyflwyniadau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyd-destun y Cyngor Gofal o fewn y maes gofal cymdeithasol yng Nghymru, cyfrifoldebau'r aelodau a sylfaen statudol y Cyngor Gofal.

Cyflwynwyd cynnwys drafft llawlyfr yr aelodau i'r aelodau ym mis Tachwedd 2001. Bydd y llawlyfr yn cynnwys gwybodaeth am y Cyngor Gofal a'i waith; y Cod Ymarfer i Aelodau; Gorchmynion Sefydlog, dogfennau Rheoli Adnoddau, aelodaeth o'r Cyngor a'r Pwyllgorau a chylch gorchwyl; a'r cynllun teithio a chynhaliaeth. Bydd y llawlyfr yn seiliedig i raddau helaeth ar ganllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r holl Gyrff Cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad.

Mabwysiadodd y Cyngor y Datganiad Rheoli a'r Memorandwm Ariannol drafft a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog fel 'canllawiau sylfaenol' ym mis Rhagfyr 2001.

Crëwyd y strwythur Pwyllgorau canlynol i gefnogi'r broses o gyflwyno rhaglen waith y Cyngor (gweler Atodiad 2 am restr o aelodau'r Pwyllgorau ac Atodiad 3 ar gyfer strwythur y Pwyllgorau):

- Pwyllgor Datblygu'r Gweithlu;
- Pwyllgor Archwilio;
- Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol.

Hefyd, sefydlwyd grwpiau cyfeirio i fwrw ymlaen â gwaith y Codau, Cofrestru'r Gweithlu a Diwygio Hyfforddiant Gwaith Cymdeithasol.

Cynhyrchwyd logo a deunyddiau cyhoeddusrwydd am weledigaeth a chenhadaeth y Cyngor erbyn diwedd mis Ionawr 2002.

Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd rhwng y Cadeiryddion a Swyddogion Prif Weithredwyr y Cynghorau yn y pedair gwlad i sicrhau cysondeb a rhannu profiadau ac arbenigedd.

## 4.5 Cynllunio a Chreu Sefydliad Newydd

Y mae'r Cyngor Gofal wedi wynebu tasg sy'n llawn her, sef sefydlu sefydliad newydd sbon â'r gallu i gyflwyno'i agenda anferth tra ar yr yn pryd, yn rheoli'r broses o drosglwyddo staff a chyfrifoldebau yn llyfn o CCETSW.

Nes diddymu CCETSW ar ddiwedd mis Medi 2001, darparwyd yr holl wasanaethau cyllid, Technoleg Gwybodaeth ac Adnoddau Dynol yn gorfforaethol gan CCETSW. O 1 Hydref 2001, yr oedd yn ofynnol i'r Cyngor Gofal ei hun ddarparu'r swyddogaethau allweddol hyn. Y flaenoriaeth oedd sicrhau fod trefniadau ariannol allweddol a systemau Technoleg Gwybodaeth ar waith ar gyfer cyfnod cychwynnol y Cyngor Gofal. Gweithredwyd y systemau ac y maent wedi'u datblygu a'u gwella yn ystod y cyfnod er mwyn sicrhau bod y Cyngor Gofal yn parhau i feddu ar y potensial i gyflwyno swyddogaethau sefydliad sy'n esblygu.

Sefydlwyd cytundebau allanol ar gyfer y gwasanaethau allweddol gan gynnwys cyflogres, pensiynau, cyngor cyfreithiol ac archwilio a TG. Y mae'r Cyngor hefyd wedi sefydlu Cytundebau Lefel Gwasanaeth gyda'r Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol ar gyfer Bwrsariaethau Myfyrwyr, Cofrestru a Thystysgrifo myfyrwyr ac ar gyfer aseswyr allanol.

Y mae un ar ddeg o aelodau staff wedi trosglwyddo o CCETSW fel rhan o drefniadau 'Trosglwyddo Ymgymeriadau – Gwarchod Cyflogaeth' i'r Cyngor Gofal. Ar ddiwedd mis Mawrth, cyflogwyd pymtheg aelod staff gyda rhaglen recriwtio yn barod i gynyddu'r sefydliad erbyn diwedd blwyddyn lawn gyntaf gweithrediad y Cyngor Gofal.

Y mae'r Cyngor Gofal wedi mabwysiadu polisïau presennol CCETSW ar gyfer Personél, Cyfleoedd Cyfartal a'r Iaith Gymraeg. Adolygir y rhain a gwneud mân-newidiadau iddynt dros y blynyddoedd i ddod.

# AELODAU CYNGOR GOFAL CYMRU

## 1af Hydref 2001 – 31ain Mawrth 2002

Y mae'r Cyngor yn adlewyrchu'r prif grwpiau yn y maes gofal cymdeithasol yng Nghymru. Y mae'r aelodau yn unigolion sy'n dod â safbwynt o'r grwpiau hyn i'r Cyngor.

**Cadeirydd** - Mutale Nyoni

**Cynhalwyr**

Mrs Sandra Burton
Mr Nigel Hardaker
Mr Jonathan Owen
Ms Barbara Symons

**Defnyddwyr Gwasanaethau**

Mr Leslie Clark
Mrs Sharon David
Mrs Caroline NØrdström
Swydd Wag

**Addysg a Hyfforddiant**

Ms Anne Cleverly
Dr Ian Shaw
Mr Ian Thomas

**Cyflogwyr Sector Preifat**

Mrs Mary Cottrell
Mr Mario Kreft

**Y Cyhoedd**

Ms Margaret Dennis
Mr David Jones
Mr David Ravey
Swydd Wag

**Cymdeithas Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol**

Mr Tony Garthwaite

**Cyflogwyr Sector Gwirfoddol**

Mr Graham Illingworth

**Cymdeithasau Proffesiynol**

Mrs Catherine Poulter

**Undebau Llafur**

Mrs Elaine Stevens

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

Y Cynghorydd Arthur Todd

# PWYLLGORAU'R CYNGOR – AELODAETH

## 1af Hydref 2001 – 31ain Mawrth 2002

Y mae Cadeirydd y Cyngor, yn rhinwedd ei swydd, yn aelod o holl Bwyllgorau'r Cyngor

### Y PWYLLGOR ARCHWILIO

David Ravey (Cadeirydd)
Anne Cleverly
Arthur Todd
Swydd Wag


### Y PWYLLGOR CYLLID AC AMCANION CYFFREDINOL

Graham Illingworth (Cadeirydd)
Mary Cottrell
David Jones
Nigel Hardaker


### PWYLLGOR DATBLYGU'R GWEITHLU

Tony Garthwaite (Cadeirydd)
Colin Berg
Sandra Burton
Margaret Dennis
Liz Devey
Graham Illingworth
Richard James
Mario Kreft
Caroline NØrdström
Mike Paramore
Ian Shaw
Ian Thomas
Anthony Ramsey Williams
Jan Wood

## Strwythur y Pwyllgorau



## SIART O'R SEFYDLIAD (Ebrill 2002)




Staff mewn Swydd 02/03 = 15
Nifer y Staff a Gymeradwyir = 22

# DIGWYDDIADAU A DREFNWYD GAN GYNGOR GOFAL CYMRU

## 1 Hydref 2001 – 31 Mawrth 2002

### Ffeiri Swyddi

| | |
|---|---|
| 6 Rhagfyr | Canolfan Hamdden Cogan, Penarth |
| 25 Chwefror | Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth |
| 15 Mawrth | Neuadd y Dref, Llangefni |
| 21 Mawrth | Canolfan Hamdden Abertawe |
| 22 Mawrth | Canolfan Hamdden Pont-y-pwl |

### Cyfarfodydd / Gweithdai / Digwyddiadau Ymgynghori

| | |
|---|---|
| 8 Hydref | Cyfarfod o Bartneriaeth Gofal Cymdeithasol Ranbarthol y De Orllewin |
| 9 Hydref | Cyfarfod o Bartneriaeth Gofal Cymdeithasol Ranbarthol Canolbarth Cymru |
| 10 Hydref | Cyfarfod o Bartneriaeth Gofal Cymdeithasol Ranbarthol Gogledd Cymru |
| 15 Hydref | Cyfarfod o Bartneriaeth Gofal Cymdeithasol Ranbarthol De Ddwyrain Cymru |
| 18 Hydref | Ymgynghoriad ar Reolwyr Cofrestredig Gofal Preswyl i Blant, Llandrindod |
| 25 Hydref | Gweithdy i gynnal arolwg o'r SGCau a'r Dyfarniadau Gofal |
| 30 Hydref | Ymgynghoriad ar y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol, Bangor |
| 31 Hydref | Ymgynghoriad ar y Safonau Galwedigaethau Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol, Wrecsam |
| 2 Tachwedd | Gweithdy i gynnal arolwg o'r SGCau a'r Dyfarniadau Gofal |
| 3 Tachwedd | Fforwm Dwyieithog, Llandrindod |
| 5 Tachwedd | Gweithdy i Ymgynghori ynghylch PM/NT/MSDA, Gogledd Cymru |
| 8 Tachwedd | Ymgynghoriad ar y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol, Abertawe |
| 9 Tachwedd | Gweithdy i Ymgynghori ar PM/NT/MSDA, De Cymru |
| 9 Tachwedd | Ymgynghoriad ar y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol, Caerdydd |
| Diwedd Tachwedd | Rheolwyr Cofrestredig Gofal Preswyl i Blant – Ymgynghori â Defnyddwyr, Gogledd Cymru |
| 3 Rhagfyr | Cyfarfod o Bartneriaeth Gofal Cymdeithasol Ranbarthol Gogledd Cymru |
| 10 Rhagfyr | Cyfarfod o Bartneriaeth Gofal Cymdeithasol Ranbarthol De Orllewin Cymru |
| 11 Rhagfyr | Cyfarfod o Bartneriaeth Gofal Cymdeithasol Ranbarthol Canolbarth Cymru |
| 18 Rhagfyr | Cyfarfod o Bartneriaeth Gofal Cymdeithasol Ranbarthol De Ddwyrain Cymru |
| 19 Rhagfyr | Gweithdy i gynnal arolwg o'r SGCau a'r Dyfarniadau Gofal |
| 11 Chwefror | Cyfarfod o Bartneriaeth Gofal Cymdeithasol Ranbarthol De Ddwyrain Cymru |
| 12 Chwefror | Gweithdy Datblygu Tystysgrifau Technegol, Llandrindod |

| | |
|---|---|
| 14 Chwefror | Cyfarfod o Bartneriaeth Gofal Cymdeithasol Ranbarthol Canolbarth Cymru |
| 15 Chwefror | Cyfarfod o Bartneriaeth Gofal Cymdeithasol Ranbarthol De Orllewin Cymru |
| 18 Chwefror | Cyfarfod o Bartneriaeth Gofal Cymdeithasol Ranbarthol Gogledd Cymru |
| 4 Mawrth | Ymgynghori â Defnyddwyr ynghylch y Codau i Ddefnyddwyr a chanddynt namau corfforol, Aberystwyth |
| 12 Mawrth | Ymgynghori â Defnyddwyr ynghylch y Codau i Ddefnyddwyr a chanddynt anableddau dysgu, Caerdydd |
| 13 Mawrth | Ymgynghori â Defnyddwyr ynghylch y Codau i'r Byddar a'r Trwm eu Clyw, Caerdydd |
| 16 Mawrth | Rhwydwaith Canghennau Cynhalwyr Cymru, Llandrindod |
| 18 Mawrth | Ymgynghori â Defnyddwyr ynghylch y Codau i bobl sy'n ddall a phobl â nam ar eu golwg, Bangor |
| 19 Mawrth | Ymgynghori â Defnyddwyr ynghylch y Codau i bobl a chanddynt broblemau iechyd meddwl, Wrecsam |

# DIGWYDDIADAU Y BU CYNGOR GOFAL CYMRU YN BRESENNOL YNDDYNT

## 1 Hydref 2001 – 31 Mawrth 2002

### Cynadleddau

| | |
|---|---|
| 17 – 19 Hydref | Cynhadledd Gwasanaethau Cymdeithasol Cenedlaethol, Harrogate |
| 7-8 Tachwedd | Cynhadledd Sgiliau Cymru a'r Seremoni Ddyfarnu, Cyngor SHC Cymru |
| 5 Rhagfyr | Cynhadledd Fframweithiau Cenedlaethol, Llywodraeth Cynulliad Cymru/Cyngor SHC Cymru, Caerdydd |
| 15 Rhagfyr | Cynhadledd Plant yn Gyntaf, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Caerdydd |
| 30 Ionawr | Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain, Caerdydd |
| 27 Chwefror | Cynhadledd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| 6 Mawrth | Cynhadledd y Cyngor Sgiliau Sector, Yr Asiantaeth Datblygu Sgiliau Sector |
| 7 Mawrth | Cynhadledd Dysgu Gydol Oes, Syniad, Caerdydd |

### Cyfarfodydd / Gweithdai / Cyfarfodydd Ymgynghori

| | |
|---|---|
| 2 Hydref | Gweithdy Cronfa Gymdeithasol Ewropeaidd, Cyngor SHC Cymru |
| 24 Hydref | Fframwaith Dyfarniadau Anableddau Dysgu: Arolwg Blynyddol, City and Guilds |
| 25 Hydref | Gweithdy Rhwydwaith Gofal CGC Cymru |
| 1 Tachwedd | Gweithdy gwella'r dewis o ran lleoliadau a sefydlogrwydd i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Llandrindod |
| 2 Tachwedd | Gweithdy Rhwydwaith Gofal CGC Cymru |
| 22 Tachwedd | Diwrnod Agored, Adran Hyfforddi Abertawe, Abertawe |
| 27 Tachwedd | Gweithdy ar Adroddiad Ymgynghorol Anableddau Dysgu "Cyflawni'r Addewidion", SCOVO |
| 3-4 Rhagfyr | Gweithdy Fframweithiau Hyfforddi, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Caerdydd |
| 13 Rhagfyr | Pwyllgor Ymgynghorol "Affinity", Caerdydd |
| 25 Ionawr | Arolwg o'r Dystysgrif Iechyd Meddwl, City and Guilds |
| 20 Chwefror | Gweithdy ar Bolisi Iaith Gymraeg y CJNTO, SHC Cyfiawnder Troseddol |
| 5 Mawrth | Ymgynghori ynghylch y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol drafft ar gyfer Iechyd Meddwl, Healthwork UK |
| 8 Mawrth | Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol Rhwydwaith Gofal CGC Cymru |
| 9 Mawrth | Seminar Preswyl Crossroads Cymru, Llandrindod |
| 16 Mawrth | Rhwydwaith Canghennau Cynhalwyr Cymru, Llandrindod |
| 22 Mawrth | Fforwm Cynhalwyr Bro Morgannwg, y Barri |

# AELODAU'R GRWPIAU

## Y Grwp Llywio ar gyfer y Fframwaith Sefydlu

| Aelod | Sector |
|---|---|
| Betty Wackerbarth | BASE Cymru |
| Beverly Williams | Cartref Nyrsio 'Pendine Park' |
| Sioned Williams | Cyngor Sir Gwynedd |
| Yvonne Apsitis | Daybreak Wales |
| Jennifer Twelvetrees | Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe |

## Y Grwp Llywio ar gyfer y Prosiect Rheoli

| | |
|---|---|
| Yvonne Apsitis | Daybreak Wales |
| Shokat Babul | Fforwm Gofal Cymru |
| Cheryl Ewen | Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Gaerfyrddin |
| Roberta Hayes | Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych |
| Adrian Jones | Cartrefi Cymru |
| Jan Wood | Canolfan Datblygu Dysgu, Prifysgol Cymru, Bangor |

## Aelodaeth y Partneriaethau Gofal Cymdeithasol Rhanbarthol

| | Gogledd | Canol[14] | D Orll | D Ddwy |
|---|---|---|---|---|
| **Cyflogwyr Preifat** | 21 | 64 | 20 | 20 |
| **Cyflogwyr Gwirfoddol** | 11 | 16 | 7 | 18 |
| **Cyflogwyr Statudol[15]** | 8 | 3 | 6 | 12 |
| **Colegau AB[16]** | 7 | 3 | 5 | 8 |
| **Darparwyr Hyfforddiant** | 8 | 4 | 10 | 12 |
| **Colegau AU** | 2 | 0 | 0 | 1 |
| **Gwybodaeth/Cyngor** | 3 | 3 | 3 | 4 |
| **Corff Dyfarnu** | 0 | 0 | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | 60 | 93 | 51 | 76 |

[14] Y mae Canolbarth Cymru yn cynnwys nifer uwch o ddarparwyr unigol oherwydd yr wybodaeth a roddir gan wasanaethau a gomisiynir er mwyn ymestyn y gynrychiolaeth.
[15] Y mae cyflogwyr statudol yn cynnwys cynrychiolaeth o rai Ymddiriedolaethau Iechyd GIG a darparwyr statudol unigol.
[16] Y mae Coleg Meirion Dwyfor ym Mhartneriaeth Gogledd Cymru ac ym Mhartneriaeth Canolbarth Cymru

# AELODAU'R GRWPIAU (parhad)

## Grwpiau MSDA ac MA / NT

| Aelod | Sector |
|---|---|
| Tony Derby | Olympic Training |
| Richard James | Cartref Preswyl Bryn Illtyd |
| Bob Jones | Grwp Gofal Iechyd Meddwl |
| Barry Latham | Cymdeithas Cartrefi Gofal Gogledd Cymru |
| June Lyons | Cartref Preswyl Ty Draw |
| Jennifer Twelvetrees | Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe |
| Jan Wood | Y Ganolfan Datblygu Dysgu, Prifysgol Cymru, Bangor |

## Rheolwyr Cofrestredig yn y maes Gofal Preswyl i Blant

| Aelod | Sector |
|---|---|
| Lynette Bryan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Angela Cossins | SHC Cyfiawnder Cymunedol |
| Eirian Davies | Cyngor Sir Abertawe |
| Charlotte Drury | Plant yng Nghymru |
| Pauline Hallas | Prospects |
| Anwen Huws | Cyngor Sir Gwynedd |
| Graham Illingworth | NCH yng Nghymru |
| Keith Ingham | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Janice Lewis | Coleg Menai |
| Martin Price | Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Eugene Rourke | Lleisiau fu Mewn Gofal |
| Dan Svensson | Castle Homes |

# Cyngor Gofal Cymru
# Care Council for Wales

# CYFRIFON 2001-2002

Cyfrifon Cyngor Gofal Cymru a baratowyd yn unol ag Atodlen 1, Adran 18 (2) Deddf Safonau Gofal 2002, am y chwe mis a ddaeth i ben 31 Mawrth 2002, ynghyd ag Adroddiad yr Archwiliwr Cyffredinol dros Gymru amdanynt.

Cyflwynwyd yn unol â Deddf Safonau Gofal, atodlen 1 adran 18(4)

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
CORFF NODDEDIG | SPONSORED BODY

**Cyngor Gofal Cymru**
**Care Council for Wales**

Cyfrifon am y chwe mis at 31 Mawrth 2002

**Cynnwys** **Tudalen**


| | |
|---|---|
| Rhagair | 39 |
| Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr | 41 |
| Datganiad o reolaeth fewnol | 42 |
| Tystysgrif ac adroddiad gan yr Archwiliwr Cyffredinol dros Gymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 44 |
| Cyfrif incwm a gwariant | 46 |
| Mantolen | 47 |
| Datganiad llif arian | 48 |
| Nodiadau i'r cyfrifon | 49 |


Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
CORFF NODDEDIG | SPONSORED BODY

## Cyngor Gofal Cymru
**Care Council for Wales**

## Rhagair

### Hanes a chefndir statudol

Sefydlwyd Cyngor Gofal Cymru (y Cyngor Gofal) gan Ddeddf Safonau Gofal 2000, a daeth i fodolaeth ar 1 Hydref 2001.

Paratowyd y datganiad cyfrifon cyntaf gan Gyngor Gofal Cymru dan Atodlen 1, Adran 18(2) Deddf Safonau Gofal 2002, ac maent yn berthnasol i'r cyfnod o chwe mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2002. Fe'i cyflwynir ar ffurf a gyfarwyddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chymeradwyaeth Trysorlys E.M. Gellir cael copi o gyfarwyddyd y cyfrifon o Swyddfeydd y Cyngor Gofal.

### Y Prif Swyddogaethau a Gweithgareddau

Prif swyddogaethau'r Cyngor Gofal yw :

- Hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad ac ymarfer ymhlith gweithwyr cymdeithasol a safon uchel yn eu hyfforddiant
- Paratoi, cyhoeddi ac adolygu codau ymarfer ac ymddygiad ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol a'u cyflogwyr
- Datblygu a chynnal cofrestr o weithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal cymdeithasol
- Rheoleiddio hyfforddiant gwaith cymdeithasol a hyfforddiant ôl-gymhwysol
- Creu strategaeth datblygu'r gweithlu a fydd yn hyrwyddo pwysigrwydd mynediad at hyfforddiant perthnasol, cymwysterau priodol a datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae Cyngor Gofal Cymru, wrth ymarfer ei swyddogaethau, yn gweithredu'n unol ag unrhyw gyfarwyddyd a gyhoeddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Canlyniadau

Mae'r Cyngor Gofal yn gorff cyhoeddus a noddir yn bennaf trwy Gymorth Grant gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Cyfeirir y gwariant at bedwar prif weithgaredd: Datblygu'r Gweithlu, Rheoleiddio'r Gweithlu, Alldaliadau (cefnogi hyfforddiant), a Chefnogi Rheolaeth a Busnes.

Cynhyrchodd y Cyngor Gofal warged o £5,000 ar ei weithgareddau arferol am y cyfnod; roedd hyn ar ôl cynnwys cost dybiannol o dâl cyfalaf o £4,000. Y gwarged wrth gefn a gariwyd ymlaen oedd £21,000. Cyfanswm cyllid y Llywodraeth oedd yn cael ei ddefnyddio gan y Cyngor Gofal ar 31 Mawrth 2002 oedd £142,000.

Etifeddodd y Cyngor Gofal rai asedion sefydlog diriaethol gan y Cyngor Canolog dros Addysg a Hyfforddiant mewn Gwaith Cymdeithasol (CCETSW), corff a ddiddymwyd gan Ddeddf Safonau Gofal 2000; cynhwysir y manylion yn y nodiadau i'r cyfrifon hyn.

Yn ystod y cyfnod at 31 Mawrth 2002 mae'r Cyngor Gofal wedi parhau i wella'r swyddogaethau a gychwynnwyd gan CCETSW ym maes datblygu'r gweithlu ynghyd â datblygu'r cyhoeddiad 'Cod Ymarfer' ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol a'u cyflogwyr. Gyda'i Gynghorau cysylltiol mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig,

lluniodd fanyleb ar gyfer system gofrestru. Nodir manylion pellach yn yr Adroddiad Blynyddol hwn ar gyfer 2001 / 2002.

## Aelodau'r Cyngor Gofal

Mae Offeryn Statudol Cymru 2001 rhif 2136(w149) paragraff 2(1) yn datgan bod y Cyngor Gofal i gynnwys Cadeirydd a hyd at bedwar ar hugain o aelodau eraill. Mae is-baragraffau 4(a) a 4(b) yn datgan bod y Cadeirydd i fod yn aelod lleyg a bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru i geisio sicrhau bod mwyafrif yr aelodau, ar bob adeg, i fod yn aelodau lleyg.

Yn ystod y cyfnod hwn penodwyd y Cadeirydd ac ugain aelod gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r aelodaeth bresennol yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol, cynhalwyr, y cyhoedd a chynrychiolaeth o blith cyflogwyr, undebau llafur, cyrff hyfforddi a chymdeithasau proffesiynol gofal.

Nodir manylion aelodau am y cyfnod yn Adroddiad Blynyddol y Cyngor Gofal ar gyfer 2001 / 2002.

Delir â chydnabyddiaeth i'r Cadeirydd a'r aelodau yn nodyn 3 y Cyfrifon hyn.

## Buddiannau Aelodau'r Cyngor

Mae cofrestr o holl fuddiannau datganedig yr aelodau ar gael i'w harchwilio yn ystod oriau gwaith arferol yn swyddfa'r Cyngor Gofal, Llawr 6, Southgate House, Wood Street, Caerdydd. CF10 1EW.

## Talu Credydwyr

Mae'r Cyngor Gofal wedi mabwysiadu Cod Taliadau Prydlon y CBI, ac mae'n cydymffurfio â Deddf Taliad Hwyr Dyled Fasnachol (Llog) 1998. Polisi'r Cyngor Gofal yw talu rhwymedigaethau o fewn telerau ac amodau contractau y cytunwyd arnynt neu o fewn 30 diwrnod i dderbyn anfoneb ddilys. Yn ystod y cyfnod, talodd y Cyngor Gofal 95% o anfonebau a hawliadau yn eu pryd.

## Polisi Cyflogaeth a Darparu Gwybodaeth

Mae'r Cyngor Gofal yn ymarfer agwedd cyfleoedd cyfartal tuag at recriwtio, datblygu a hyrwyddo staff. Rhoddir ystyriaeth lawn i geisiadau am swyddi gan bobl anabl, os oes ganddynt y sgiliau a'r galluoedd priodol i berfformio'r gwaith. Mae'r Cyngor Gofal wedi mabwysiadu egwyddorion o fod yn agored a cheisio cyfranogiad yn ei drefniadaeth; sicrheir bod staff yn ymwybodol o ddatblygiadau trwy gyfrwng dogfennau ysgrifenedig, trafodaethau anffurfiol a chyfarfodydd gwybodaeth.

## Archwilwyr

Mae Atodlen 1(18)4 Deddf Safonau Gofal 2000 yn pennu y bydd yr Archwiliwr Cyffredinol dros Gymru yn archwilio, ardystio ac adrodd ar gyfrifon blynyddol y Cyngor Gofal. Penodwyd *South & West Audit* (Caerwynt) yn archwilwyr mewnol y Cyngor Gofal.

Rhian Huws Williams
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo — Dyddiad 9 Hydref 2002

**Cyngor Gofal Cymru**
**Care Council for Wales**

## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor Gofal a'r Prif Weithredwr

Dan Atodlen 1, Adran 18(2) Deddf Safonau Gofal 2000, mae'n ofynnol bod y Cyngor Gofal yn paratoi datganiad cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol, a hynny ar ffurf i'w bennu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi golwg deg a chywir ar gyflwr busnes y Cyngor Gofal ar ddiwedd y cyfnod, ac o'i incwm a'i wariant a llif arian ar gyfer y cyfnod.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol bod y Cyngor Gofal yn:

- glynu wrth yr holl ofynion cyfrifo a datgelu a bennir yn y cyfarwyddyd cyfrifo a gyhoeddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yn arddel polisïau cyfrifo addas ar sail gyson

- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol

- datgan a gafodd safonau cyfrifo cymhwysol eu dilyn a datgelu ac esbonio unrhyw wyriad materol yn y datganiadau ariannol

- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes byw, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Cyngor Gofal yn parhau i weithredu.

Mae Swyddog Cyfrifo Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifo ar gyfer y Cyngor Gofal.  Pennir ei chyfrifoldebau perthnasol fel Swyddog Cyfrifo ym Memorandwm y Swyddog Cyfrifo a gyhoeddir gan Drysorlys EM. Maent yn cynnwys priodoldeb a chysonder yr arian cyhoeddus a chadw cofnodion cywir.

**Cyngor Gofal Cymru**
**Care Council for Wales**

## Datganiad ar Reolaeth Fewnol

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn gyfrifol am gynnal system reolaeth fewnol gadarn sy'n cefnogi'r broses o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor Gofal, tra'n diogelu'r cyllid a'r asedau cyhoeddus yr wyf i yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi dan drefn Gyfrifo'r Llywodraeth.

Rwyf yn cydnabod fy nghyfrifoldeb dros sicrhau bod y Cyngor Gofal yn cynnal ac yn gweithredu system reolaeth ariannol fewnol effeithiol. Ni all y system ond darparu sicrwydd rhesymol, ac nid sicrwydd absoliwt, fod yr asedau yn cael eu diogelu, bod trafodion yn cael eu hawdurdodi a'u cofnodi'n briodol, a bod gwallau ac anghysonderau materol un ai yn cael eu hatal neu eu canfod mewn da bryd.

Mae system reolaeth fewnol y Cyngor Gofal yn seiliedig ar fframwaith o reoli gwybodaeth, rheoliadau ariannol, trefniadau gweinyddol, gan gynnwys neilltuo dyletswyddau. Yn benodol, mae'n cynnwys:

- Cyfarfodydd rheolaidd o'r Cyngor i gytuno ar gynllunio a chyfeiriad strategol.
- Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog sy'n pennu cyfrifoldebau aelodau'r Cyngor a swyddogion mewn perthynas â materion ariannol.
- Systemau cyllidebol gyda chyllideb flynyddol.
- Systemau rheolaeth ariannol dros wariant ac adrodd ar wariant gwirioneddol yn erbyn y gyllideb.
- Cyfarfodydd rheolaidd gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru ac Adolygiad Atebolrwydd blynyddol gydag adain nawdd y Cyngor Gofal.
- Arferion mewnol ar gyfer delio gyda chyngor gan Drysorlys EM a'r Cynulliad, gan gynnwys hynny sy'n gynwysedig yn llythyrau'r CEO a'r DAO.

Fel y Swyddog Cyfrifo, yr wyf yn ymwybodol o argymhellion Pwyllgor Turnbull, ac rwyf yn cymryd camau rhesymol i gydymffurfio â gofynion Trysorlys EM bod datganiad rheolaeth fewnol, sy'n cynnwys polisi rheoli risg, yn cael ei baratoi ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2003, yn unol â'r canllawiau a gyflwynwyd ganddynt.

Mae trefn reolaeth fewnol y Cyngor Gofal wedi'i seilio ar broses barhaus gyda'r nod o nodi'r prif bethau a allai beryglu'r broses o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor; arfarnu natur a maint y risgiau hyn, a'u rheoli'n effeithiol ac mewn ffordd ddarbodus.


Rwyf yn disgwyl y bydd y trefniadau sydd eu hangen i weithredu arweiniad y Trysorlys ar waith cyn mis Mawrth 2003; mae'r dasg hon yn ystyried yr amser sydd ei angen i wella cadernid y prosesau yn llwyr.

O hyn ymlaen, bydd agendâu'r Cyngor, ei Bwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a'r Pwyllgor Archwilio yn cynnwys eitemau ar reoli risg a rheolaeth fewnol ar sail reolaidd ac fe geir asesiad risg llawn cyn adrodd ar y flwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2003. Bydd prosesau cynllunio corfforaethol a llunio penderfyniadau yn cynnwys egwyddorion rheoli risg.

Yn y flwyddyn i ddod, mae'r Cyngor Gofal yn bwriadu trefnu gweithdai rheoli risg er mwyn clustnodi a diweddaru'r cofnod o risgiau sy'n wynebu'r sefydliad, cyflwyno hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o risg, sefydlu dangosyddion perfformiad allweddol a risg a datblygu a chynnal Cofrestr Risg.

Mae archwilwyr mewnol y Cyngor yn gweithredu at safonau a ddiffinnir yn Llawlyfr Archwiliadau Mewnol y Llywodraeth. Maent yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd sy'n cynnwys eu barn annibynnol ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw systemau rheolaeth fewnol, ynghyd ag argymhellion ynghylch eu gwella.

Mae fy adolygiad o reolaeth fewnol yn ystyried gwaith yr archwilwyr mewnol, fy rheolwyr, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith reolaeth fewnol, a sylwadau'r archwilwyr allanol yn eu hadroddiadau a'u llythyrau rheolaeth.



Rhian Huws Williams
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo

Dyddiad 9fed Hydref 2002

**Tystysgrif ac Adroddiad yr Archwiliwr Cyffredinol dros Gymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Rwy'n tystio i mi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 44 i 56 dan baragraffau 18(4) atodlen 1 Deddf Safonau Gofal 2000. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn ôl yr arferiad cost hanesyddol fel y'u haddaswyd trwy ailbrisio rhai asedau sefydlog, a'r polisïau cyfrifo a nodir ar dudalennau 47 ac 48.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo a'r Archwiliwr, y naill a'r llall

Fel a ddisgrifir ar dudalen 39, y Swyddog Cyfrifo sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Safonau Gofal 2000 a chyfarwyddyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru a wneir yn unol â hi ac am sicrhau cysondeb trafodion ariannol. Y Swyddog Cyfrifo sy'n gyfrifol hefyd am baratoi cynnwys arall yr Adroddiad Blynyddol. Pennir fy nghyfrifoldebau i, fel archwiliwr annibynnol, gan statud a dilynaf gyfarwyddiadau'r Bwrdd Arferion Archwilio ac arweiniad moesegol y proffesiwn archwilio.

Rwyf yn rhoi fy marn mewn adroddiad ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac wedi'u paratoi yn unol â Deddf Safonau Gofal 2000 a chyfarwyddyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â hi, ac a yw'r gwariant a'r incwm ymhob ffordd faterol wedi'u defnyddio i'r dibenion y'u bwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Rwyf hefyd yn adrodd os nad yw'r Rhagair, yn fy marn i, yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw Cyngor Gofal Cymru wedi cadw cofnodion cyfrifo cywir neu os nad ydwyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer f'archwiliad.

Darllenaf y wybodaeth arall sydd yn yr Adroddiad Blynyddol, ac ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Rwy'n ystyried y goblygiadau i'm tystysgrif os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysondebau yn y datganiadau ariannol.

Adolygaf a yw'r datganiad ar dudalennau 40 a 41 yn adlewyrchu cydymffurfiad Cyngor Gofal Cymru ag arweiniad y Trysorlys "Llywodraethu Corfforaethol : Datganiad ar Reolaeth Fewnol". Adroddaf os nad yw'n cwrdd â'r gofynion a bennir gan y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson ag unrhyw wybodaeth arall yr wyf ym ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol.

## Sail barn yr archwiliwr

Cynhaliwyd f'archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gynhyrchir gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys profi, ar sail sampl, tystiolaeth sy'n berthnasol i symiau, datgeliadau a chysondeb y trafodion ariannol a gynhwysir yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon sylweddol a'r penderfyniadau a wnaed gan Gyngor Gofal Cymru wrth baratoi'r datganiadau ariannol, a hefyd asesiad ynghylch a yw'r polisïau cyfrifo yn addas i amgylchiadau Cyngor Gofal Cymru, yn cael eu cymhwyso'n gyson ac yn cael eu datgelu'n ddigonol.

Bu i mi gynllunio a chynnal f'archwiliad er mwyn i mi dderbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau yr oeddwn yn eu hystyried yn angenrheidiol i gael tystiolaeth ddigonol er mwyn cael sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiad, pa un a achoswyd hynny trwy gamgymeriad, neu drwy dwyll neu afreoleidd-dra arall, ac ym mhob modd materol bod y gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion y bwriadwyd hwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi

arfarnu pa mor ddigonol yn gyffredinol yw cyflwyniad y wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

## Barn

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa busnes Cyngor Gofal Cymru ar 31 Mawrth 2002 ac o’r gwarged am y cyfnod, enillion a cholledion cydnabyddedig a llifau arian am y cyfnod 1 Hydref 2001 tan 31 Mawrth 2002, a'u bod wedi'u paratoi'n gywir yn unol â Deddf Safonau Gofal 2000 a'r cyfarwyddyd a wnaed yn unol â hi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru; ac
- ymhob modd materol, mae'r gwariant a'r incwm wedi cael eu defnyddio at y dibenion y'u bwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

*John Bourn*
**Yr Archwiliwr Cyffredinol dros Gymru**

**18fed Hydref 2002**

***Cynulliad Cenedlaethol Cymru***
***Bae Caerdydd***
***Caerdydd***
***CF99 1NA***

## Cyngor Gofal Cymru
## Care Council for Wales
## Cyfrif Incwm a Gwariant
**Am y chwe mis ddaeth i ben 31 Mawrth 2002**

| | Nodyn | 2001 / 02 £000 | 2001 / 02 £000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | |
| Grant y llywodraeth | 2 | | 1,193 |
| Rhyddhau grant y llywodraeth | | | 6 |
| Incwm a dderbyniwyd gan gyrff llywodraethol eraill | | | 35 |
| | | | 1,234 |
| **Gwariant** | | | |
| Costau cyflogi | 3 | | 206 |
| Costau uniongyrchol | | | |
| Alldaliadau – cefnogi hyfforddiant | 4(i) | 400 | |
| Costau rhaglen eraill | 4(ii) | 188 | 588 |
| Costau sefydlu | 5 | | 425 |
| Dibrisiant | | | 6 |
| Cost dybiannol tâl cyfalaf | 1(ix) | | 4 |
| | | | 1,229 |
| **Gwarged ar weithgareddau arferol** | | | 5 |
| Addasiad ar gyfer cost dybiannol tâl cyfalaf | | | 4 |
| **Gwarged wrth gefn am y cyfnod** | | | 9 |
| **Datganiad o symudiad cronfa gyffredinol** | | | |
| Cronfa gyffredinol ar 1 Hydref 2001 | | | - |
| Cyfalaf gwaith a drosglwyddwyd o'r hen CCETSW | | | 12 |
| Gwarged wrth gefn am y cyfnod | | | 9 |
| **Cronfa gyffredinol fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2002** | | | 21 |

Pennir yr holl weithgareddau yr ymgymerwyd â hwy yn ystod y cyfnod yn rhai parhaus, ac nid oes unrhyw enillion na cholledion yn ychwanegol i'r hyn a nodir yn y cyfrif incwm a gwariant.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 47 i 56 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## Cyngor Gofal Cymru
## Care Council for Wales

### Mantolen

### Fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2002

| | Nodyn | **2002** **£000** | **2002** **£000** |
|---|---|---|---|
| **Asedau Sefydlog** | | | |
| Asedau Sefydlog Diriaethol | 6 | | 121 |
| **Asedau Cyfredol** | | | |
| Dyledwyr | 7 | 26 | |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 9 | 60 | |
| | | 86 | |
| Credydwyr | | | |
| Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn | 8 | (65) | |
| **Asedau cyfredol net** | | | 21 |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | 142 |
| **Ariannwyd gan :** | | | |
| **Cyfalaf ac arian wrth gefn** | | | |
| Grant y Llywodraeth wrth gefn | 11 | 121 | |
| Cronfa gyffredinol | 11 | 21 | |
| **Cronfeydd y Llywodraeth** | | | 142 |
| | | | 142 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 47 i 56 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Rhian Huws Williams
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo

Dyddiad 9fed Hydref 2002

**Cyngor Gofal Cymru**
**Care Council for Wales**

# Datganiad Llif Arian

## Am y chwe mis ddaeth i ben 31 Mawrth 2002

| | Nodyn | £000 |
|---|---|---|
| **Mewnlif arian net o weithgareddau gweithredol** | | 60 |
| Gwariant cyfalaf a buddsoddiad ariannol | | |
| Taliadau i feddu ar asedau sefydlog diriaethol | 6 | 81 |
| All-lif arian net cyn ariannu | | 141 |
| Ariannu | | |
| Grant y Llywodraeth wrth gefn a ddefnyddiwyd i brynu asedau sefydlog | 11 | (81) |
| **Cynnydd mewn arian** | 9 | 60 |

## Nodiadau i'r Datganiad Llif Arian

### Cysoni gwarged ar weithgareddau arferol gyda mewnlif arian net o weithgareddau gweithredol

| | | |
|---|---|---|
| Gwarged ar weithgareddau arferol am y flwyddyn | | 5 |
| Addasu ar gyfer eitemau nad ydynt yn golygu symud arian : | | |
| Cost Dybiannol Tâl Cyfalaf | 4 | |
| Dibrisiant | 6 | |
| Rhyddhau Grant y Llywodraeth | (6) | 4 |
| Symud cyfalaf gwaith | | |
| Trosglwyddwyd o'r hen CCETSW | 12 | |
| Cynnydd mewn Dyledwyr | (26) | |
| Cynnydd mewn Credydwyr | 65 | 51 |
| **Mewnlif arian net o weithgareddau gweithredol** | | 60 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 47 i 56 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

**Cyngor Gofal Cymru**
**Care Council for Wales**

# Nodiadau i'r Cyfrif ar gyfer y chwe mis ddaeth i ben 31 Mawrth 2002

## 1. Polisïau Cyfrifo

### 1(i) Arferion Cyfrifo

Paratowyd y cyfrifon yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda chaniatâd Trysorlys E.M. Fe'u paratowyd yn unol â'r arferiad costau hanesyddol fel y'i haddaswyd. Heb gyfyngu ar y wybodaeth a roddir, maent yn bodloni gofynion cyfrifo a datgelu Deddf Cwmnïau 1985, a Safonau Adroddiadau Ariannol a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo cyn belled ag y bo'r gofynion hynny yn briodol i'r Cyngor Gofal.

### 1(ii) Cyllido

Mae system cymorth grant 'swm penodol' ar waith. Mae hyn yn golygu y gellir defnyddio arian i gwrdd â thaliadau a wnaed yn ystod y flwyddyn sy'n briodol i'w gosod yn erbyn y grant, ar yr amod nad ydynt, o'u cronni at ei gilydd, yn mynd y tu hwnt i'r terfyn ariannol. Rheolir y grant ar sail arian tra bod y cyfrif hwn yn cael ei baratoi ar sail croniadau.

Credydir rhan o'r grant, a ddyrennir i wariant cyfalaf, i gyfalaf ac arian wrth gefn ar y fantolen; rhyddheir cyfran o'r balans ar yr arian wrth gefn hwn yn flynyddol i'r Cyfrif incwm a gwariant, yn seiliedig ar oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr asedion perthnasol.

### 1(iii) Deilliannau ac Offerynnau Ariannol

Mae'r Cyngor Gofal yn dibynnu'n bennaf ar grantiau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru am ei nawdd, nid oes ganddo unrhyw fenthyciadau ac nid yw, fel arfer, yn cael ei wneud yn agored i risgiau o ran hylifedd.

Nid oedd gan y Cyngor Gofal unrhyw adneuon materol yn y cyfnod, ac mae pob ased a rhwymedigaeth materol wedi'u nodi mewn sterling. Felly, nid yw'n agored i risg sy'n gysylltiedig â'r gyfradd llog neu ag arian cyfred.

### 1(iv) Asedau Sefydlog Diriaethol

Cyfalefir eitemau cyfalaf o werth unigol neu grwp o £1,000 neu fwy. Gosodwyd gwerth ar yr asedau yn ôl cost hanesyddol ar 31ain Mawrth 2002, gan nad yw unrhyw addasiadau ail-brisio yn faterol, ym marn y Cyngor Gofal. Etifeddwyd rhai asedau o'r cyn gorff, CCETSW, ac fe ddefnyddiwyd addasiad gwerth teg i ostwng y gwerth hwn i'r gost gyfredol o gael rhai yn eu lle. Dygwyd asedau eraill a brynwyd ar ran y Cyngor Gofal gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i mewn i'r cyfrif hwn ar gost.

### 1(v) Dibrisiant

Darperir dibrisiant ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu cost hanesyddol pob ased ar sail llinell syth dros oes economaidd ddefnyddiol yr ased, fel a nodir isod.

Offer Swyddfa - pum mlynedd.
Offer Cyfrifiadurol - pedair blynedd.

Cyfrifir dibrisiant yn fisol, ac eithrio asedau a brynwyd ym mis Mawrth, lle na fydd dibrisiant yn cael ei godi tan ddechrau'r flwyddyn newydd.

**Cyngor Gofal Cymru**
**Care Council for Wales**

**Nodiadau i'r Cyfrif ar gyfer y chwe mis ddaeth i ben 31 Mawrth 2002**

## 1(vi) Lesio Eiddo ac Offer.

Cofnodir gwariant ar lesio eiddo yn y cyfrif incwm a gwariant ar sail y costau a gododd yn ystod y flwyddyn. Cofnodir rhenti cyfarpar dan brydlesau gweithredol yn y cyfrif incwm a gwariant mewn symiau cyfartal dros gyfnod y brydles.

## 1(vii) Trethu

Nid yw'r Cyngor Gofal wedi derbyn unrhyw incwm ffioedd yn y cyfnod ac nid yw wedi ei gofrestru ar gyfer T.A.W. Mae trafodaethau ar droed gyda Thollau Tramor a Chartref E.M. ynghylch statws y Cyngor i'r dyfodol fel corff a eithrir mewn perthynas â'i incwm ffioedd yn y dyfodol. Mae pob gwariant gan gynnwys ychwanegiadau i asedau sefydlog diriaethol, yn cynnwys T.A.W. anadferadwy.

## 1(viii) Costau Uniongyrchol

Cofnodir costau uniongyrchol, gan gynnwys gwariant grant, yn y cyfrif incwm a gwariant ar sail yr hawliadau a dalwyd yn ystod y cyfnod.

## 1(ix) Costau Pensiwn

Mae'r Cyngor Gofal yn rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf; mae cyfraniadau staff a'r Cyngor Gofal ar raddfeydd y cytunir arnynt gan actwari'r cynllun. Mae'r cynllun yn gynllun cyflog terfynol ond, yn unol â chanllawiau'r Trysorlys, fe'i cyfrifwyd yn gynllun cyfraniad penodol, a chofnodir cyfraniadau yn y cyfrif incwm a gwariant yn seiliedig ar gyflogau a dalwyd yn ystod y cyfnod.

## 1(x) Cost Cyfalaf

Cynhwysir tâl i adlewyrchu cost cyfalaf a ddefnyddiwyd yn y cyfnod yn y Cyfrif Incwm a Gwariant. Cyfrifir hyn mewn termau real ar gyfradd safonol y Llywodraeth o chwech y cant ar net yr holl asedau, llai rhwymedigaethau.

**Nodiadau i'r Cyfrif (parhad)**

## 2 Grant y Llywodraeth

| | £000 |
|---|---|
| Cymorth Grant gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 1,315 |
| Swm a gofnodwyd dan Wariant Cyfalaf | (122) |
| Swm a gofnodwyd dan y Cyfrif Incwm a Gwariant | 1,193 |

## Cyngor Gofal Cymru
## Care Council for Wales
### Nodiadau i'r Cyfrif (parhad)

## 3 Costau cyflogi

**3(1)Cost cyflogi:**

| | £000 |
|---|---|
| Cadeirydd | 10 |
| Staff | 196 |
| | 206 |

**3(ii)Cadeirydd, Aelodau a Staff**

Dadansoddiad Cyflogau:

| | |
|---|---|
| Cyflogau | 179 |
| Yswiriant Gwladol Cyflogwr | 14 |
| Costau Pensiwn Cyflogwr | 13 |
| | 206 |

Ar wahân i'r Cadeirydd, nid yw aelodau'n derbyn unrhyw gydnabyddiaeth gan y Cyngor Gofal. Nid yw'r Cadeirydd na'r aelodau yn rhan o gynllun pensiwn y Cyngor Gofal. Mae tymor y Cadeirydd yn parhau tan 31 Mawrth 2005 ac mae ei hymrwymiad amser i'r Cyngor gyfwerth â diwrnod a hanner yr wythnos. Tymor gwasanaeth aelodau yw rhwng tair a phedair blynedd.

**3(iii)Manylion cydnabyddiaeth Aelodau ac Uwch Staff sy'n gyfrifol am lunio polisïau :**

| | | Oedran | Cyflog am y cyfnod £000 | gwerth pensiwn yn 65 Gwir Gynnydd £000 | Cronedig £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cadeirydd | Mutale Nyomi | 44 | 5 – 10 | - | - |
| Prif Weithredwr | Rhian Huws-Williams | 43 | 25 – 30 | 0 - 2.5 | 0 - 2.5 |
| Rheolwr Busnes | Neil Wicks | 37 | 15 – 20 | 0 - 2.5 | 0 – 2.5 |

Mae'r Prif Weithredwr yn aelod cyffredin o gynllun pensiwn y Cyngor Gofal.

Mae gwerthoedd pensiwn yn cynnwys buddiannau a sicrhawyd yn y swydd hon yn unig.

Nid oes unrhyw gytundeb penodol yn berthnasol i'r Prif Weithredwr na rheolwyr allweddol.

Ni dderbyniodd unrhyw aelod nac uwch staff gydnabyddiaeth na buddiannau ymarferol gan y Cyngor Gofal, heblaw'r rhai a nodir uchod. Nid yw'r Cyngor Gofal yn gweithredu cynllun ar gyfer darparu cerbydau modur.

**3(iv) Cyflogeion**

Roedd nifer llawn y staff mewn swyddi yn dal i gynyddu ar ddiwedd y flwyddyn. Y bwriad yw y bydd y Cyngor Gofal yn ysgwyddo'i holl swyddogaethau yn ystod 2003 / 2004.
Nifer cyfartalog y staff llawn amser cyfatebol mewn swydd yn ystod y cyfnod oedd:

| | |
|---|---|
| Prif Weithredwr | 1 |
| Ymgynghorwyr Addysg Gwaith Cymdeithasol | 4 |
| Rheolwr Busnes | 1 |
| Staff Eraill | 8 |
| | 14 |

**Cyngor Gofal Cymru**
**Care Council for Wales**

## Nodiadau i'r Cyfrif (parhad)

## 4 Costau Uniongyrchol

### 4(i) Alldaliadau – cefnogi hyfforddiant

| | £000 |
|---|---|
| Ariannu lleoliadau ymarfer | 319 |
| Grantiau cydweithredu | 29 |
| Hyfforddiant ôl gymhwyso | 45 |
| Costau teithio myfyrwyr di-radd | 7 |
| | 400 |

### 4(ii) Costau rhaglen eraill

| | £000 |
|---|---|
| Datblygu'r gweithlu | 173 |
| Rheoleiddio'r gweithlu | 15 |
| | 188 |

## 5 Costau Sefydlu

| | £000 |
|---|---|
| Treuliau'r Cadeirydd, aelodau a staff | 22 |
| Costau staff eraill | 74 |
| Adeiladau | 38 |
| Gweithdai, arddangosfeydd a hyrwyddiadau | 16 |
| Cyhoeddiadau – datblygu'r gweithlu, rheoleiddio a hyfforddi | 68 |
| Offer a meddalwedd | 93 |
| Cyllid | 3 |
| Gweinyddu | 24 |
| Archwiliad allanol | 14 |
| Ffioedd proffesiynol eraill | 73 |
| | 425 |

## Cyngor Gofal Cymru
## Care Council for Wales

### Nodiadau i'r Cyfrif (parhad)

**6 Asedau Sefydlog Diriaethol** — **6 mis at 31 Mawrth 2002**

| | Offer Swyddfa £000 | Offer Cyfrifiadurol £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|
| **Costau Hanesyddol** | | | |
| Ar 1 Hydref | - | - | - |
| Asedau a drosglwyddwyd o'r hen CCETSW | - | 11 | 11 |
| Addasiad gwerth teg | - | (6) | (6) |
| Asedau a brynwyd i'r Cyngor Gofal gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | 27 | 14 | 41 |
| Ychwanegiadau yn y cyfnod | - | 81 | 81 |
| Ar 31 Mawrth 2002 | 27 | 100 | 127 |
| **Dibrisiant** | | | |
| Ar 1 Hydref 2001 | - | - | - |
| Tâl am y cyfnod | (3) | (3) | (6) |
| Ar 31 Mawrth 2002 | (3) | (3) | (6) |
| **Gwerth net ar y llyfrau** | | | |
| Ar 1 Hydref 2001 | - | - | - |
| Ar 31 Mawrth 2002 | 24 | 97 | 121 |

**Offer a brynwyd ar ran y Cyngor Gofal**

Talodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ddodrefn ac offer swyddfa, fel rhan o'r gwaith o sefydlu swyddfeydd y Cyngor Gofal. Dadansoddir yr eitemau hyn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Asedau sefydlog diriaethol | 41 |
| Dodrefn ac offer swyddfa (a gynhwyswyd yn y cyfrif incwm a gwariant) | 70 |
| | 111 |

**Offer a etifeddwyd gan yr hen CCETSW**

Etifeddodd y Cyngor Gofal offer cyfrifiadurol gan yr hen CCETSW a ddiddymwyd gan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Mae'r Cyngor Gofal wedi gosod gwerth ar yr offer hwn, sy'n llai na'i werth net ar y llyfrau yng nghofnodion y corff blaenorol, ac fe ddangosir y gostyngiad fel addasiad gwerth teg.

**Cyngor Gofal Cymru**
**Care Council for Wales**

## Nodiadau i'r Cyfrif (parhad)

### 7 Dyledwyr

| | £000 |
|---|---|
| Dyledwyr masnach | 2 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | 24 |
| | 26 |

### 8 Credydwyr – Symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn

| | |
|---|---|
| Credydwyr | 51 |
| Croniadau | 14 |
| | 65 |

### 9 Dadansoddi newidiadau mewn Arian

| | |
|---|---|
| Cynnydd mewn balansau arian dros y cyfnod | 60 |
| Cronfeydd Net ar 31 Mawrth 2002 | 60 |

### 10 Ymrwymiadau prydles weithredol

Ar 31 Mawrth 2002, roedd y Cyngor wedi'i ymrwymo i wneud taliadau blynyddol yn y flwyddyn nesaf mewn perthynas â phrydles weithredol fel a ganlyn :

**Tir ac Adeiladau**

| | |
|---|---|
| Prydlesau a ddaw i ben ar ôl pum mlynedd: | 47 |

**Offer Swyddfa**

| | |
|---|---|
| Prydlesau a ddaw i ben mewn rhwng dwy a phum mlynedd: | |
| Prydles Llungopïwr | 2 |

## Cyngor Gofal Cymru
## Care Council for Wales

### Nodiadau i'r Cyfrif (parhad)

| **11 Cysoni'r symudiadau mewn cyfalaf ac arian wrth gefn** | **Cronfa Gyffredinol** | **Cronfa y Llywodraeth Wrth Gefn** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** |
| Cronfeydd ar 1 Hydref 2001 | - | - | - |
| Asedau a brynwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | - | 41 | 41 |
| Asedau a etifeddwyd gan yr hen CCETSW | - | 11 | 11 |
| Addasiad gwerth teg | - | (6) | (6) |
| Cyfalaf gwaith a drosglwyddwyd o'r hen CCETSW | 12 | - | 12 |
| Gwarged wrth gefn am y cyfnod | 9 | - | 9 |
| Grant a gofnodwyd i wariant cyfalaf | - | 81 | 81 |
| Rhyddhau i incwm gweithredol | - | (6) | (6) |
| **Cyfalaf ac arian wrth gefn ar 31 Mawrth 2002** | 21 | 121 | 142 |

Mae cyfanswm grant y Llywodraeth wrth gefn yn cynrychioli gwerth net hanesyddol asedau sefydlog diriaethol ar y llyfrau ar 31 Mawrth 2002.

## 12. Ymrwymiadau Pensiwn

**12(i) Staff Cyfredol a Phensiynwyr**
Mae'r Cyngor Gofal yn rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sy'n gynllun a ariennir gan sawl cyflogwr. Delir asedau'r cynllun yn annibynnol ar asedau'r Cyngor Gofal ac fe'u gweinyddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

**12(ii) Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, cynllun budd diffiniedig**
Mae'r cynllun yn darparu pensiynau a buddiannau perthnasol yn seiliedig ar gyflogau terfynol. Mae'r Cynllun yn gontract sydd wedi ei eithrio o Gynllun Pensiwn ar Sail Enillion y Wlad ac nid yw'n amodol ar isafswm gofynion pensiwn Deddf Pensiynau 1995.
Nodir lefel cyfraniadau ac ariannu diffygion prisio yn Nhystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau'r Actwari sydd ynghyd â'i Adroddiad, ynghlwm wrth y Prisiad Actwaraidd. Mae'r Dystysgrif yn pennu cyfradd gyffredin cyfraniad y cyflogwr, addasiadau ar gyfer cyflogwyr unigol a dyddiadau gweithredu.

**12(iii) Prisiadau actwaraidd**
Mae Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 1977 (rheoliad 77) yn pennu bod rhaid cyflawni prisiadau actwaraidd ar 31 Mawrth 1998, a bob tair blynedd wedi hynny yn defnyddio'r dull Uned Ddisgwyliedig, fel sy'n ofynnol gan SSAP 24; mae'r dull hwn yn cyfatebu incwm y dyfodol a rhwymedigaethau. Seilir y tybiaethau ariannol actwaraidd, sy'n cael effaith sylweddol ar ganlyniadau'r prisiadau, ar y cyfraddau blynyddol a ganlyn i'r dyfodol: buddsoddiadau - 4.0%, Chwyddiant - 2.5%, cynnydd cyflog - 4.25% a chynydd pensiwn - 2.5%.

Y prisiad actwaraidd diweddaraf ar asedau'r cynllun fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2001 oedd £866.4m; roedd hyn yn cynrychioli 76.2% o rwymedigaethau'r Uned Ddisgwyliedig (1998 £805.3m 79%).

Nid yw'r diffyg wedi ei ddadansoddi yn ôl y cyrff cyfrannol. Roedd prisiad asedau a rhwymedigaethau'r cynllun dan y dull a bennwyd gan adran 56(3) Deddf Pensiynau 1995 23.8% dros ben rhwymedigaethau.

**12(iv) Cynllun Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar ôl 31 Mawrth 2002**
Nid oes unrhyw ddarpariaethau yn Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i orffen neu ddirwyn y Gronfa i ben ac nid yw'n angenrheidiol ystyried canlyniad digwyddiad o'r fath.

**12(v) Cyfraniad Cyngor Gofal Cymru i'r cynllun**
Nid oedd Cyngor Gofal Cymru'n bodoli ar ddyddiad y prisiad diwethaf ac nid yw wedi ei restru ar Dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau'r Actwari. Y gyfradd gyfrannu a delir ar hyn o bryd yw cyflogeion 6.0% a'r Cyngor Gofal 8.10% o gyflogau.

Dywedodd yr actwari na ddylid gweld unrhyw newidiadau yng nghyfraddau'r Cyngor na'i staff yn ystod y ddwy flynedd nesaf ac fe gadarnhaodd nad yw diffyg y cynllun o ran cyllid cyn 1 Hydref 2001 yn berthnasol i Gyngor Gofal Cymru.

## Nodiadau i'r Cyfrif (parhad)

### 13. Trafodion Partïon Cysylltiedig

**13.1** Yn ystod y cyfnod, cafodd Cyngor Gofal Cymru amrywiol drafodion materol gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru, a ystyrir yn barti cysylltiedig. Mae'r isod hefyd yn gyrff a ystyrir yn bartïon cysylltiedig :

Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Prifysgol Caerdydd
Cyngor Sir Fynwy
Prifysgol Morgannwg, Pontypridd
Prifysgol Cymru Bangor, Gwynedd
Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru, Caerdydd
Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru, Wrecsam

**13.2 Aelodau a Staff y Cyngor Gofal**

Ni fu unrhyw gyflogai yn rhan uniongyrchol nac uniongyrchol o unrhyw drafodion gyda'r Cyngor yn ystod y cyfnod hwn, ar wahân i hawliau teithio arferol, taliadau cyflog ayb. Rhestrir isod aelodau sydd â swyddi uwch ar gyrff eraill y bu gan y Cyngor drafodion materol â hwy :

| **Aelod y Cyngor** | Corff cysylltiol | **Trafodion yn ystod y cyfnod** |
|---|---|---|
| Ms Anne Cleverly | Pennaeth Cynorthwyol, Datblygiad Staff, Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd | £23,000 |
| Mr Tony Garthwaite | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Personol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | £9,000 |
| Dr Ian Shaw | Darllenydd mewn Gwaith Cymdeithasol, Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd | £14,000 |
| Mr Ian Thomas | Rheolwr Staff a Gwasanaethau i Gwsmeriaid Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, Cyngor Sir Fynwy | £4,000 |

### 14. Rhwymedigaethau Cyfalaf

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau cyfalaf materol yn ddyledus ar 31 Mawrth 2002.

### 15. Rhwymedigaethau Annisgwyl

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau annisgwyl yn bodoli 31 Mawrth 2002.